



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales**  
**(The Official Record)**

**Dydd Mercher 23 Mehefin 1999**

**Wednesday 23 June 1999**

## Cynnwys Contents

2	Datganiadau gan y Llywydd <i>Statements by the Presiding Officer</i>
4	Ethol Aelodau Ychwanegol i'r Pwyllgorau Pwnc <i>Election of Additional Members to the Subject Committees</i>
10	Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 <i>Questions to the Secretary for Under-16 Education</i>
19	Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig <i>Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development</i>
28	Datganiad ynghylch yr Achosion o E-coli yng Ngogledd Cymru <i>Statement on the E-coli Outbreak in North Wales</i>
36	Dadl ar Rôl Pwyllgorau Rhanbarth <i>Debate on the Role of Regional Committees</i>

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefaryd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

### **Datganiadau gan y Llywydd Statements by the Presiding Officer**

**Y Llywydd:** Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn. Daeth i'm sylw ar ddiwedd y sesiwn ddoe fod problem dechnegol gyda meic a phanel pleidleisio Kirsty Williams. O'r herwydd, ni chofrestrwyd pleidlais gan y system ar ei chyfer ac ni chafodd ei phleidlais ei chynnwys yng nghyfanswm y pleidleisiau a roddwyd yn y Cofnod ddoe. Penderfynais ddiwygio'r Cofnod drwy gofnodi pleidlais Kirsty, a oedd yn bleidlais yn erbyn y cynnig. Canlyniad y bleidlais ddoe ar gynnig gan y Prif Ysgrifennydd ar ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi oedd 31 pleidlais o blaid, 8 yn ymatal, ac 13 yn erbyn. Bwriwyd 52 o bleidleisiau.

Oherwydd y digwyddiad hwn, yr wyf wedi gofyn am archwiliad trylwyr o'r system bleidleisio, y paneli pleidleisio unigol a'r system wifrau. Os gelwir am bleidlais o gadarnhad heddiw, byddwn yn cynnal y bleidlais drwy alw o'r gofrestr. Rhoddir gwybod i Reolwyr Busnes trwy'r Pwyllgor Busnes a fydd modd parhau i ddefnyddio'r system yn ddiogel hyd y gwyliau.

Deallaf fod y Prif Ysgrifennydd yn awyddus i wneud datganiad coffad fel eitem ychwanegol ar ein hagenda. Croesawaf yr eitem hon. Yn arferol mae eitemau coffad yn ymwneud ag Aelodau'r Cynulliad, ond yr wyf yn awyddus ein bod yn gosod cynsail i goffâu y rhai a leddir wrth wasanaethu Cymru a'r Deyrnas Unedig.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Diolchaf i'r Llywydd am y cyfle i ddweud gair i goffâu'r Lefftenant Gareth Evans a gafodd ei ladd yn Kosovo ddoe, a Balaram Rai, y Gurkha a fu farw hefyd.

**The First Secretary:** I thank the Presiding Officer for allowing me to extend our sympathy to the colleagues and family of Lieutenant Gareth Evans, killed in Kosovo yesterday. It is also appropriate to mention

**The Presiding Officer:** I call the National Assembly of Wales to order. It was brought to my attention at the end of yesterday's session that we had technical problems with Kirsty Williams' microphone and voting panel. Therefore, no vote was registered by the system against her name and her vote was not included in the total number of votes in yesterday's Record. I took the decision to amend the Record by recording Kirsty's vote against the motion. The result of yesterday's vote on the motion proposed by the First Secretary on the reform of the House of Lords was 31 votes for, 8 abstentions and 13 against. A total of 52 votes.

I have asked for a thorough investigation into the voting system, the individual voting panels and the wiring system because of this incident. If a confirmatory vote is called today, I will take a roll call vote. Business Managers will be informed through the Business Committee as to whether the system can continue to be used safely until the recess.

I understand the First Secretary is keen to make an obituary statement as an additional item to our agenda. I welcome this item. Usually, obituary items are associated with Assembly Members, but I am keen to set a precedent in memory of those killed serving Wales and the United Kingdom.

**The First Secretary:** I thank the Presiding Officer for this opportunity to say a word in memorial of Lieutenant Gareth Evans who was killed in Kosovo yesterday and Balaram Rai, the Gurkha who also died.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Diolchaf i'r Llywydd am ganiatáu imi estyn ein cydymdeimlad â chyfeillion a theulu Lefftenant Gareth Evans, a gafodd ei ladd yn Kosovo ddoe. Mae hefyd yn briodol crybwyll Balaram Rai, y Sarsiant

Balaram Rai, the Gurkha Sergeant who was also killed. The Gurkhas trained in Snowdonia and there has been a long-standing contact between Wales and those people who have served us and are now serving peace in the world, in Kosovo.

It is a tragedy for any individual who is serving in an international context to be killed and at a time following a conflict that has received so much attention across the world. It has also brought great concern about many atrocities. At last, things are progressing, though it is bound to be a time of untidiness and danger for those serving in the armed forces. It is a tragedy and it is appropriate for this Assembly to commemorate those killed. I am sure all parties wish to be united in extending sympathy to Gareth Evans' colleagues who continue to serve and be in danger in Kosovo, and to his family.

**Rod Richards:** I wish to endorse entirely and unequivocally the First Secretary's every word about this very sad occasion. The British nation owes a debt of gratitude to Lieutenant Gareth Evans and to Sergeant Balaram Rai. It is a debt of gratitude we cannot pay to their families and we extend our deepest sympathy to them. The fact that Lieutenant Evans was an Officer in one of the finest regiments in the British Army speaks volumes; a regiment that is respected and feared all over the world. Many people do not know of somebody who has been killed in action for their country. I will say to Members and those who take an interest in our activities, that on Remembrance Sunday, 11 November 1999, they should spare a thought for Lieutenant Gareth Evans, Sergeant Balaram Rai and their families.

**Brian Hancock:** I echo everything that has been said. Lieutenant Evans was a former constituent of mine who lived and was brought up in Risca. I welcome the point about Remembrance day. Perhaps we should consider a remembrance bank holiday of some sort for people who die whilst serving their countries and for freedom. Today, it is

Gurkha a gafodd ei ladd hefyd. Hyfforddwyd y milwyr Gurkha yn Eryri ac mae cyswllt hir rhwng Cymru a'r bobl hynny sydd wedi ein gwasanaethu ni ac sydd yn awr yn gwasanaethu heddwch yn y byd, yn Kosovo.

Mae'n drasiedi pan fydd unrhyw unigolyn sydd yn gwasanaethu mewn cyd-destun rhyngwladol yn cael ei ladd ac ar adeg yn dilyn gwrthdaro sydd wedi cael cymaint o sylw ledled y byd. Mae hefyd wedi dwyn yn ei sgîl bryderon difrifol am lawer o erchyllterau. O'r diwedd, mae pethau'n symud yn eu blaenau, er ei bod yn siŵr o fod yn adeg o flerwch a pherygl i'r rheini sydd yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Mae'n drasiedi ac mae'n briodol i'r Cynulliad hwn goffâu y rheini a laddwyd. Yr wyf yn sicr bod yr holl bleidiau am uno i estyn cydymdeimlad â chyfeillion Gareth Evans sydd yn dal i wasanaethu ac sydd yn dal i fod mewn perygl yn Kosovo, ac â'i deulu.

**Rod Richards:** Hoffwn ategu'n llwyr a phendant union eiriau'r Prif Ysgrifennydd am y digwyddiad trist hwn. Mae ar y genedl Brydeinig ddyled o ddiolchgarwch i Lefftenant Gareth Evans ac i Sarsiant Balaram Rai. Mae'n ddyled o ddiolchgarwch na allwn ei thalu i'w teuluoedd ac yr ydym yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf iddynt. Mae'r ffaith bod Lefftenant Gareth Evans yn Swyddog yn un o'r catrodau gwychaf yn y Fyddin Brydeinig yn siarad cyfrolau; catrawd a berchir ac a ofnir ym mhob cwr o'r byd. Mae llawer o bobl nad ydynt yn gwybod am unrhyw un a laddwyd mewn rhyfel dros eu gwlad. Hoffwn ddweud wrth yr Aelodau a'r rheini sydd â diddordeb yn ein gweithgareddau, ar ddydd Sul y Cofio, 11 Tachwedd 1999, y dylent gofio am Lefftenant Gareth Evans, Sarsiant Balaram Rai a'u teuluoedd.

**Brian Hancock:** Yr wyf yn adleisio popeth a ddywedwyd. Yr oedd Lefftenant Evans yn gyn-etholwr imi; yr oedd yn byw ac fe'i magwyd yn Rhisga. Croesawaf y pwynt am ddydd y Cofio. Efallai y dylem ystyried rhyw fath o ŵyl banc y cofio i bobl a fu farw tra'n gwasanaethu eu gwledydd a thros ryddid. Heddiw, mae'n bwysig ein bod yn ystyried

important that we consider the families and colleagues of those serving the Balkan people.

**Michael German:** On behalf of the Liberal Democrats, I endorse all that has been said. It is important to recall Gareth Evans' background of life in south Wales. He attended school in Monmouth and was involved in army cadets in south Wales. He was brought up in the spirit of providing the service for which he died. It is also important to remember that he was defending peace. That is the role he had to play in awful circumstances in a dreadful part of the world. The only consolation is that we have helped to defend that peace. He is a man who gave a lot in his shortened life. We must all respect his work and the work of Sergeant Balaram Rai who was with him. We must also respect the service they have given this country and that which they gave for peace in the troubled Balkans.

**The Presiding Officer:** I thank all Assembly Members who joined in that tribute.

teuluoedd a chyfeillion y rheini sydd yn gwasanaethu pobl y Balcan.

**Michael German:** Ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, ategaf bopeth a ddywedwyd. Mae'n bwysig cofio cefndir bywyd Gareth Evans yn ne Cymru. Mynychodd yr ysgol yn Nhrefynwy ac yr oedd yn gysylltiedig â chadetaid y fyddin yn ne Cymru. Fe'i magwyd yng nghanol naws o ddarparu'r gwasanaeth y bu ef farw drosto. Mae hefyd yn bwysig cofio y bu ef hefyd yn gwarchod heddwch. Dyma'r rôl y bu'n rhaid iddo ef ei chwarae mewn amgylchiadau dychrynlyd mewn rhan echrydus o'r byd. Yr unig gysur yw ein bod wedi helpu i warchod yr heddwch hwnnw. Mae ef yn ddyn a roddodd lawer yn ei fywyd byr. Rhaid inni oll barchu ei waith a gwaith Sarsiant Balaram Rai a oedd gydag ef. Rhaid inni hefyd barchu'r gwasanaeth y maent hwy wedi ei roi i'r wlad hon a'r gwasanaeth a roddasant dros heddwch yng ngwledydd cythryblus y Balcan.

**Y Llywydd:** Diolchaf i holl Aelodau'r Cynulliad a ymunodd yn y deyrnged hon.

### **Ethol Aelodau Ychwanegol i'r Pwyllgorau Pwnc Election of Additional Members to the Subject Committees**

**Andrew Davies:** Some weeks ago, concern was expressed in a plenary session about the composition of Subject Committees. I gave an assurance that the Business Committee and Party Managers would consider this. In view of these discussions and the commitment I gave to the Assembly, the composition of the Subject Committees will remain an issue to be resolved and reviewed in the autumn.

I propose that

*the Assembly, acting under section 57(8) of the Government of Wales Act 1998, elects the following additional Member to its Agriculture and Rural Development Subject Committee: Peter Rogers (Conservative).*

I propose that

*the Assembly, acting under section 57(8) of*

**Andrew Davies:** Rai wythnosau yn ôl, mynegwyd pryder mewn sesiwn llawn am gyfansoddiad y Pwyllgorau Pwnc. Addewais y byddai'r Pwyllgor Busnes a Rheolwyr y Pleidiau yn ystyried hyn. Yng ngoleuni'r trafodaethau hyn a'r ymrwymiad a roddais i'r Cynulliad, mae cyfansoddiad y Pwyllgorau Pwnc yn dal yn fater i'w ystyried a bydd yn cael ei ddatrys a'i adolygu yn yr hydref.

Cynigiau fod

*y Cynulliad, yn gweithredu dan adran 57(8) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr Aelod ychwanegol canlynol i'w Bwyllgor Pwnc ar Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig: Peter Rogers (Ceidwadwyr).*

Cynigiau fod

*y Cynulliad, yn gweithredu dan adran 57(8)*

*the Government of Wales Act 1998, elects the following additional Member to its Health and Social Services Subject Committee: Nick Bourne (Conservative).*

I propose that

*the Assembly, acting under section 57(8) of the Government of Wales Act 1998, elects the following additional Member to its Under-16 Education Subject Committee: Jonathan Morgan (Conservative).*

*A vote was held by show of hands.*

*Motion adopted.*

2:08 p.m.

*Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr Aelod ychwanegol canlynol i'w Bwyllgor Pwnc ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Nick Bourne (Ceidwadwyr).*

Cynigiad fod

*y Cynulliad, yn gweithredu dan adran 57(8) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr Aelod ychwanegol canlynol i'w Bwyllgor Pwnc ar Addysg Cyn-16: Jonathan Morgan (Ceidwadwyr).*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

### **Ethol Aelodau i'r Pwyllgor Archwilio Election of Members to the Audit Committee**

**Andrew Davies:** I propose that

*the Assembly, acting under section 60(3) and (5) of the Government of Wales Act 1998, elects the following Members to its Audit Committee: Christine Chapman (Labour), Brian Gibbons (Labour), Alun Pugh (Labour), Alison Halford (Labour), Dafydd Wigley (Plaid Cymru), Geraint Davies (Plaid Cymru), Alun Cairns (Conservative), Peter Black (Liberal Democrat), and elects Janet Davies (Plaid Cymru) to be chair of the Committee.*

*A vote was held by show of hands.*

*Motion adopted.*

**Andrew Davies:** Cynigiad fod

*y Cynulliad, yn gweithredu dan adran 60(3) a (5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr Aelodau canlynol i'w Bwyllgor Archwilio: Christine Chapman (Llafur), Brian Gibbons (Llafur), Alun Pugh (Llafur), Alison Halford (Llafur), Dafydd Wigley (Plaid Cymru), Geraint Davies (Plaid Cymru), Alun Cairns (Ceidwadwyr), Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol), ac yn ethol Janet Davies (Plaid Cymru) i fod yn gadeirydd i'r Pwyllgor.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

### **Ethol Aelodau i'r Pwyllgor Deddfau Election of Members to the Legislation Committee**

**Andrew Davies:** I propose that

*the Assembly, acting under section 59(2) and (4) of the Government of Wales Act 1998, elects the following Members to its Legislation Committee: Huw Lewis (Labour), Carwyn Jones (Labour), Lynne Neagle (Labour), John Marek (Labour), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), Dai Lloyd (Plaid Cymru), Owen John Thomas (Plaid Cymru), Nick Bourne (Conservative), and elects*

**Andrew Davies:** Cynigiad fod

*y Cynulliad, yn gweithredu dan adran 59(2) a (4) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr Aelodau canlynol i'w Bwyllgor Deddfau: Huw Lewis (Llafur), Carwyn Jones (Llafur), Lynne Neagle (Llafur), John Marek (Llafur), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), Dai Lloyd (Plaid Cymru), Owen John Thomas (Plaid Cymru), Nick Bourne (Ceidwadwyr), ac yn ethol Michael German (Democratiaid*

*Michael German (Liberal Democrat) to be chair of the Committee.* *Rhyddfrydol) i fod yn gadeirydd i'r Pwyllgor.*

*A vote was held by show of hands.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.*

*Motion adopted.*

*Derbyniwyd y cynnig*

### **Ethol Aelodau i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad Election of Members to the Committee on Standards of Conduct**

**Elin Jones:** Mater o drefn. Mae camgymeriad ynglŷn â phwy yw cynrychiolydd Plaid Cymru. Dylai ddweud Gareth Jones yn hytrach na Geraint Davies. Dim ond yn awr yr wyf yn sylweddoli hynny.

**Elin Jones:** Point of order. There is an error as regards the Plaid Cymru representative. It should read Gareth Jones, not Geraint Davies. I have only just realised this.

**Y Llywydd:** Mae Elin Jones yn siarad fel ysgrifennydd grŵp Plaid Cymru. Os oes camgymeriad yn y modd y mae'r cynnig wedi'i osod, bydd yn rhaid tynnu'r cynnig yn ôl a'i ailosod. Gallaf osod gerbron gynnig fel a saif ar yr agenda yn unig.

**The Presiding Officer:** Elin Jones speaks as secretary of the Plaid Cymru group. If there is an error in the way in which the motion has been tabled, it will have to be withdrawn and tabled again. I can only put the motion before the Assembly as it stands on the agenda.

**The First Secretary:** Point of order. We could allow it to stand but amend it at the next meeting for which a motion could be tabled. In the meantime, perhaps officials would note the intention in terms of making papers available and so on. That may be less disruptive.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mater o drefn. Gallwn adael iddo fel ag y mae a'i newid yn y cyfarfod nesaf; gellid cyflwyno cynnig ar gyfer hynny. Yn y cyfamser, efallai y gallai'r swyddogion nodi'r bwriad o safbwynt paratoi papurau ac yn y blaen. Efallai y byddai hynny yn tarfu llai.

**The Presiding Officer:** I am grateful to the First Secretary. If that is acceptable we will proceed.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Ysgrifennydd. Os yw hynny yn dderbyniol fe wnawn fwrw ymlaen.

**Jenny Randerson:** Point of order. I refer to Standing Order No. 16.1, paragraph 3 that relates to the Committee on Standards of Conduct. Presiding Officer, have you had any complaints about the conduct of any Assembly Member so far that you would regard as appropriate for reference to that committee?

**Jenny Randerson:** Mater o drefn. Cyfeiriaf at Reol Sefydlog Rhif 16.1, paragraff 3 sydd yn cyfeirio at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Lywydd, ydych chi wedi cael unrhyw gwynion am ymddygiad unrhyw Aelod o'r Cynulliad y byddech yn ystyried ei bod yn briodol eu cyfeirio i'r pwyllgor hwn?

**The Presiding Officer:** I will take advice on that and I will respond at the next plenary session.

**Y Llywydd:** Hoffwn gymryd cyngor ynghylch hyn a byddaf yn ymateb yn y sesiwn llawn nesaf.

**Jenny Randerson:** Could I ask you a supplementary question relating to that Standing Order?

**Jenny Randerson:** A gaf i ofyn cwestiwn atodol ichi ynghylch y Rheol Sefydlog hon?

**The Presiding Officer:** No. There is one point of order before us to which I have replied. If you have a further point of order you may raise it, but if it is part of the first I will not take it as a point of order.

**Jenny Randerson:** I do have a further point of order. What would be your view on an attempt by a political group to remove somebody from an Assembly Office on the grounds of their conduct, without referring the matter to you as suggested in this Standing Order?

**The Presiding Officer:** That is a hypothetical question as far as I am aware. Any matters relating to this issue or to the administration of the Assembly is a matter for me, my deputy and the Business Committee. Any issues relating to the conduct of Members or to the organisation of Assembly Committees will be dealt with in an orderly way, according to this and other Standing Orders. At the moment, I have no information on which to make a statement. I will make a statement to the Assembly if necessary as soon as I have any information.

**Andrew Davies:** I propose that

*the Assembly, in accordance with Standing Order No. 16.2, elects the following Members to its Committee on Standards of Conduct: Val Feld (Labour), John Griffiths (Labour), Karen Sinclair (Labour), Richard Edwards (Labour), Janet Davies (Plaid Cymru), Brian Hancock (Plaid Cymru), Geraint Davies (Plaid Cymru), Christine Humphreys (Liberal Democrat), and elects Nick Bourne (Conservative) to be chair of the Committee.*

*A vote was held by show of hands.*

*Motion adopted.*

**Y Llywydd:** Na chewch. Mae un mater o drefn ger ein bron ac yr wyf wedi ymateb i hwnnw. Os oes gennych fater o drefn arall cewch godi'r mater, ond os yw'n rhan o'r cyntaf ni wnaef ei dderbyn fel mater o drefn.

**Jenny Randerson:** Mae gennyf fater o drefn arall. Beth fyddai eich barn chi am ymgais gan grŵp gwleidyddol i gael gwared â rhywun o'i Swyddfa yn y Cynulliad ar sail eu hymddygiad, heb gyfeirio'r mater atoch fel yr awgrymir yn y Rheol Sefydlog hon?

**Y Llywydd:** Cwestiwn damcaniaethol yw hwn cyn belled ag y gwn i. Mater i mi, fy nirprwy a'r Pwyllgor Busnes yw unrhyw faterion sydd yn ymwneud â'r mater hwn neu â gweinyddiaeth y Cynulliad. Byddir yn delio ag unrhyw faterion ynghylch ymddygiad Aelodau neu drefniadaeth Pwyllgorau'r Cynulliad yn briodol, yn unol â'r Rheol Sefydlog hon ac unrhyw reolau eraill. Ar hyn o bryd, nid oes gennyf unrhyw wybodaeth i wneud datganiad arni. Byddaf yn gwneud datganiad i'r Cynulliad os bydd hynny'n angenrheidiol cyn gynted ag y bydd gennyf unrhyw wybodaeth.

**Andrew Davies:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 16.2, yn ethol yr Aelodau canlynol i'w Bwyllgor Safonau Ymddygiad: Val Feld (Llafur), John Griffiths (Llafur), Karen Sinclair (Llafur), Richard Edwards (Llafur), Janet Davies (Plaid Cymru), Brian Hancock (Plaid Cymru), Geraint Davies (Plaid Cymru), Christine Humphreys (Democratiaid Rhyddfrydol), ac yn ethol Nick Bourne (Ceidwadwyr) i fod yn gadeirydd i'r Pwyllgor.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.*

*Derbyniwyd y cynnig.*



**Ethol Aelodau i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd**  
**Election of Members to the Committee on European Affairs**

**Andrew Davies:** I propose that

*the Assembly, in accordance with Standing Order No. 15.4, elects the following Members to its Committee on European Affairs: Rhodri Morgan (Labour), Val Feld (Labour), Christine Gwyther (Labour), Alun Pugh (Labour), Phil Williams (Plaid Cymru), Elin Jones (Plaid Cymru), Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru), Rod Richards (Conservative), William Graham (Conservative), Mick Bates (Liberal Democrat), and elects Alun Michael (Labour) to be chair of the Committee.*

*A vote was held by show of hands.*

*Motion adopted.*

**Andrew Davies:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 15.4, yn ethol yr Aelodau canlynol i'w Bwyllgor Materion Ewropeaidd: Rhodri Morgan (Llafur), Val Feld (Llafur), Christine Gwyther (Llafur), Alun Pugh (Llafur), Phil Williams (Plaid Cymru), Elin Jones (Plaid Cymru), Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru), Rod Richards (Ceidwadwyr), William Graham (Ceidwadwyr), Mick Bates (Democratiaid Rhyddfrydol), ac yn ethol Alun Michael (Llafur) i fod yn gadeirydd i'r Pwyllgor.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

**Ethol Aelodau i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal**  
**Election of Members to the Committee on Equality of Opportunity**

**Andrew Davies:** I propose that

*the Assembly, in accordance with Standing Order No. 14.3, elects the following Members to its Committee on Equality of Opportunity: Edwina Hart (Labour), Christine Chapman (Labour), Carwyn Jones (Labour), Richard Edwards (Labour), Helen Mary Jones (Plaid Cymru), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), Janet Ryder (Plaid Cymru), Glyn Davies (Conservative), David Melding (Conservative), Kirsty Williams (Liberal Democrat), and elects Jane Hutt (Labour) to be chair of the Committee.*

*A vote was held by show of hands.*

*Motion adopted.*

**Andrew Davies:** Cynigiaf fod

*y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 14.3, yn ethol yr Aelodau canlynol i'w Bwyllgor Cyfle Cyfartal: Edwina Hart (Llafur), Christine Chapman (Llafur), Carwyn Jones (Llafur), Richard Edwards (Llafur), Helen Mary Jones (Plaid Cymru), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), Janet Ryder (Plaid Cymru), Glyn Davies (Ceidwadwyr), David Melding (Ceidwadwyr), Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol), ac yn ethol Jane Hutt (Llafur) i fod yn gadeirydd i'r Pwyllgor.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

**Ethol Aelodau i'r Pwyllgorau Rhanbarth**  
**Election of Members to the Regional Committees**

**Cynog Dafis:** Mater o drefn ynglŷn â geiriad. Sylwaf ein bod yn defnyddio ymadroddion megis 'gogledd Cymru', 'canolbarth Cymru', 'south-east Wales' ac yn

**Cynog Dafis:** Point of order as regards wording. I note that we always use terms such as 'north Wales', 'mid Wales', 'south-east Wales' and so on. Since this is the

y blaen drwy'r amser. Gan mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw hwn, nid wyf yn gweld pam y dylem ddweud 'Cymru' bob tro. Yr wyf yn argymhell ein bod yn defnyddio'r ymadroddion 'y gogledd', 'y de-ddwyrain', 'y de-orllewin', 'y canolbarth' ac ati bob amser.

**Y Llywydd:** Mae hwn yn bwynt diddorol ond nid yw'n fater o drefn ar gyfer heddiw. Mae enwau etholaethau wedi'u gosod dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac felly maent yn enwau penodol a chyfreithiol. Mae modd diwygio'r enwau hynny a byddai'n briodol i'r Cynulliad ystyried y mater maes o law, gan alw i gof yr ymgais i wneud mater o drefn heddiw.

**Andrew Davies:** I propose that

*the Assembly, acting under section 61(5)(b) of the Government of Wales Act 1998, elects the following Assembly electoral region Members: Rod Richards, Peter Rogers, Christine Humphreys, Janet Ryder to the North Wales Regional Committee.*

I add that constituency Members will automatically be members of that regional committee. We are dealing only with regional Members.

I propose that

*the Assembly, acting under section 61(5)(b) of the Government of Wales Act 1998, elects the following Assembly electoral region Members: Alun Michael, Nick Bourne, Glyn Davies, Cynog Dafis to the Mid Wales Regional Committee.*

I propose that

*the Assembly, acting under section 61(5)(b) of the Government of Wales Act 1998, elects the following Assembly electoral region Members: Alun Michael, Nick Bourne, Glyn Davies, Cynog Dafis, Alun Cairns, Peter Black, David Rhys Lloyd, Janet Davies to the South West Wales Regional Committee.*

I propose that

National Assembly for Wales, I do not see why we should say 'Wales' each time. I suggest that we use terms such as 'the north', 'the south-east', 'the south-west' and 'the midlands' each time.

**The Presiding Officer:** That is an interesting point but it is not a point of order for today. The names of constituencies have been given under the Government of Wales Act 1998 and, therefore, they are specific and legal names. It is possible to revise those names and it would be appropriate for the Assembly to consider the matter in due course, calling to attention the attempt to make a point of order today.

**Andrew Davies:** Cynigiau fod

*y Cynulliad, yn gweithredu dan adran 61(5)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr Aelodau rhanbarthol canlynol: Rod Richards, Peter Rogers, Christine Humphreys, Janet Ryder i Bwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru.*

Ychwanegaf y bydd Aelodau etholaethau yn dod yn aelodau o'r pwyllgor rhanbarth hwnnw yn otomatig. Gyda'r Aelodau rhanbarthol yn unig yr ydym ni yn delio.

Cynigiau fod

*y Cynulliad, yn gweithredu dan adran 61(5)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr Aelodau rhanbarthol canlynol: Alun Michael, Nick Bourne, Glyn Davies, Cynog Dafis i Bwyllgor Rhanbarth Canolbarth Cymru.*

Cynigiau fod

*y Cynulliad, yn gweithredu dan adran 61(5)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr Aelodau rhanbarthol canlynol: Alun Michael, Nick Bourne, Glyn Davies, Cynog Dafis, Alun Cairns, Peter Black, David Rhys Lloyd, Janet Davies i Bwyllgor Rhanbarth De Orllewin Cymru.*

Cynigiau fod

*the Assembly, acting under section 61(5)(b) of the Government of Wales Act 1998, elects the following Assembly electoral region Members: Janet Davies, David Melding, Jonathan Morgan, Pauline Jarman, Owen John Thomas, William Graham, Michael German, Jocelyn Davies, Phil Williams, Alun Cairns, Peter Black, David Rhys Lloyd to the South East Wales Regional Committee.*

**David Davies:** Point of order. There appears to be an error in that motion. We wanted to propose William Graham for the South East Wales Regional Committee.

**Michael German:** There is no error.

**David Davies:** I apologise for that.

**The Presiding Officer:** I am always grateful to the leader of the Liberal Democrats for assistance in these matters. The motion is apparently correct, but I am grateful to David Davies for drawing our attention to what might have been a misunderstanding. I can now put this motion forward.

*A vote was held by show of hands.*

*Motion adopted.*

2:18 p.m.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 Questions to the Secretary for Under-16 Education**

### **Y Fenter Cyllid Preifat Private Funding Initiative**

**Q1 Jane Davidson:** When will a decision be made on the private funding initiative bid by Ysgol Gyfun Rhydfelen? (OAQ173JS)

*y Cynulliad, yn gweithredu dan adran 61(5)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr Aelodau rhanbarthol canlynol: Janet Davies, David Melding, Jonathan Morgan, Pauline Jarman, Owen John Thomas, William Graham, Michael German, Jocelyn Davies, Phil Williams, Alun Cairns, Peter Black, David Rhys Lloyd i Bwyllgor Rhanbarth De Ddwyrain Cymru.*

**David Davies:** Mater o drefn. Mae'n ymddangos bod camgymeriad yn y cynnig hwn. Yr oeddem eisiau cynnig William Graham ar gyfer Pwyllgor Rhanbarth De Ddwyrain Cymru.

**Michael German:** Nid oes unrhyw gamgymeriad.

**David Davies:** Ymddiheuraf am hynny.

**Y Llywydd:** Yr wyf bob amser yn ddiolchgar i arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol am gymorth gyda'r materion hyn. Mae'n ymddangos bod y cynnig yn gywir, ond yr wyf yn ddiolchgar i David Davies am dynnu ein sylw at yr hyn a allai fod wedi bod yn gamddealltwriaeth. Yn awr, gallaf roi'r cynnig hwn gerbron.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

**C1 Jane Davidson:** Pryd y penderfynir ar y cais gan Ysgol Gyfun Rhydfelen o dan y fenter cyllid preifat? (OAQ173JS)

**The Secretary for Under-16 Education, Rosemary Butler:** The bid is one of 22 applications covering the range of local government services that are being evaluated. Peter Law expects to announce in July which projects will be supported.

**Jane Davidson:** I am going to quote the Director of Environmental Services from March 1998. He wrote to the Director of Education saying that the conditions of the school were detrimental to the health and safety of the teachers and pupils, and that the situation could not be allowed to continue. This is the most dilapidated school in Rhondda Cynon Taff and this is the view of the local authority.

Will the Secretary join me in ensuring that children in Wales are not educated under conditions that are detrimental to their health and safety? This should influence the final bid for PFI schools projects.

**Rosemary Butler:** Jane Davidson's comments are worrying. The health and safety of children are the responsibility of the local authority and the school's board of governors. They will have done all they can to ensure that children are safe in school.

I will ensure that those representations are put before Peter Law when he makes a decision.

**Rod Richards:** Will Rosemary Butler give an assurance to the local authorities successful in their PFI bids that they will not be discriminated against or disadvantaged during future local government settlements? Will she give the Assembly an assurance that any successful PFI bid will be neutral and that successful local authorities will not lose out in future settlements?

**Rosemary Butler:** The PFIs are a special kind of funding that have to be agreed upon. As far as I am aware, that will not take away from their allocation each year. However, I

**Yr Ysgrifennydd dros Addysg Cyn-16, Rosemary Butler:** Mae'r cais yn un o 22 o geisiadau yn cwmpasu amrediad o wasanaethau llywodraeth leol sydd wrthi'n cael eu gwerthuso. Mae Peter Law yn disgwyl cyhoeddi ym mis Gorffennaf ba brosiectau a gefnogir.

**Jane Davidson:** Yr wyf am ddyfynnu Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Amgylchedd ym mis Mawrth 1998. Ysgrifennodd at y Cyfarwyddwr Addysg gan ddweud bod cyflwr yr ysgol yn andwyol i iechyd a diogelwch yr athrawon a'r disgyblion, ac na ellid caniatáu i'r sefyllfa barhau. Hon yw'r ysgol fwyaf adfeiliedig yn Rhondda Cynon Taf a dyma yw barn yr awdurdod lleol.

A yw'r Ysgrifennydd yn barod i ymuno â mi i sicrhau nad yw plant Cymru yn cael eu haddysgu dan amodau sydd yn andwyol i'w hiechyd a'u diogelwch? Dylai hyn ddylanwadu ar y cais terfynol am brosiectau ysgolion dan y fenter cyllid preifat.

**Rosemary Butler:** Mae sylwadau Jane Davidson yn peri gofid. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol a bwrdd llywodraethwyr yr ysgol yw iechyd a diogelwch plant. Byddant hwy wedi gwneud pob dim o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn ddiogel yn yr ysgol.

Gallaf eich sicrhau y bydd yr achos hwn yn cael ei gyflwyno gerbron Peter Law pan fydd yn gwneud penderfyniad.

**Rod Richards:** A fyddai Rosemary Butler gystal â rhoi sicrwydd i'r awdurdodau lleol hynny y mae eu ceisiadau i'r fenter cyllid p preifat yn llwyddiannus na fyddant dan anfantais nac yn cael eu trin yn anffafriol yn ystod setliadau llywodraeth leol i'r dyfodol? A wna hi roi sicrwydd i'r Cynulliad y bydd unrhyw gais llwyddiannus dan y fenter cyllid preifat yn niwtral ac na fydd yr awdurdodau lleol llwyddiannus ar eu colled mewn setliadau i'r dyfodol?

**Rosemary Butler:** Math arbennig o gyllid y mae'n rhaid cytuno arno a geir dan y fenter hon. Cyn belled ag y gwn i, ni fydd hynny yn tynnu oddi ar eu dyraniad blynyddol. Fodd

will get advice on that issue and will come back to you.

**Pauline Jarman:** I declare an interest as a member of the Rhondda Cynon Taff Local Education Authority. Will Rosemary Butler accept an invitation to visit Rhydfelen school to see one of the worst examples of accommodation, not only in Rhondda Cynon Taff but also in the whole of Wales?

**Rosemary Butler:** I accept Pauline Jarman's offer. I have begun a series of school visits. After today's plenary, I will be travelling to north Wales to visit schools in three constituencies. I hope to visit as many schools as possible in Wales so that I can have first hand experience of what the conditions are.

**Gareth Jones:** O ystyried nifer y ceisiadau a ddaeth i law a hefyd y cwestiynau sydd ger ein bron y prynhawn hwn, mae'n amlwg fod hwn yn fater holl bwysig i ni yng Nghymru. Mae ffordd sylweddol i fynd cyn y medrwn ddatrys y broblem.

Cyfeiriodd Rosemary yn gynharach at y ffaith mai Peter Law fyddai'n gwneud y penderfyniadau anodd. A fyddai Peter Law yn fodlon rhannu'r meini prawf y mae'n mynd i'w defnyddio i wneud ei benderfyniadau? Byddai hynny'n rhoi syniad i'r ysgolion beth fydd o'u blaenau yn y dyfodol a'r tebygolrwydd y medrant gael cymorth.

Mae'n holl bwysig ein bod yn cytuno ar natur y meini prawf, er mwyn i ni gael gwybodaeth ar y sefyllfa a sut mae'r Ysgrifennydd yn mynd i ddod i benderfyniad ar fater anodd iawn.

**Rosemary Butler:** I assume that there are clear-cut criteria laid down, otherwise local authorities could not make the bid in the first place. I will ensure that Peter Law lets you know what the criteria are as soon as possible.

bynag, yr wyf am gael cyngor ynghylch y mater hwn a dof yn ôl atoch.

**Pauline Jarman:** Hoffwn ddatgan diddordeb fel aelod o Awdurdod Addysg Lleol Rhondda Cynon Taf. A fydd Rosemary Butler gystal â derbyn gwahoddiad i ymweld ag ysgol Rhydfelen i weld enghraifft o un o'r adeiladau gwaethaf, nid yn unig yn Rhondda Cynon Taf ond hefyd yng Nghymru gyfan?

**Rosemary Butler:** Derbyniaf gynnig Pauline Jarman. Yr wyf wedi dechrau cyfres o ymweliadau ag ysgolion. Ar ôl y sesiwn llawn heddiw, byddaf yn teithio i ogledd Cymru i ymweld ag ysgolion mewn tair etholaeth. Gobeithiaf ymweld â chymaint o ysgolion â phosibl yng Nghymru er mwyn imi weld cyflwr yr ysgolion drosaf fy hun..

**Gareth Jones:** Considering the number of requests that have been received and the questions before us this afternoon, it is obvious that this is an important issue for us in Wales. There is a substantial way to go before we can resolve the problem.

Rosemary referred earlier to the fact that Peter Law would be making the difficult decisions. Would Peter Law be willing to share the criteria that he will be using to make his decisions? This will give schools an idea of what lies ahead of them in the future and what the likelihood is that they will be able to receive assistance.

It is crucial that we agree upon the nature of the criteria, so that we have information on the situation and how the Secretary is going to come to a decision on a very difficult matter.

**Rosemary Butler:** Yr wyf yn tybio bod meini prawf pendant wedi eu pennu, neu ni fyddai'r awdurdodau lleol yn gallu gwneud y cais yn y lle cyntaf. Fe wnafr sicrhau y bydd Peter Law yn rhoi gwybod ichi beth yw'r meini prawf cyn gynted â phosib.

### **Y Papur Gwyrdd ar gyfer Addysgu a Dysgu The Green Paper for Teaching and Learning**

**Q2 Jenny Randerson:** In view of the concern expressed by teaching unions about the Green Paper ‘The BEST for Teaching and Learning’, how does Rosemary Butler propose to offer a realistic set of proposals for the future, in relation to the structure and remuneration of the teaching profession? (OAQ214JS)

**Rosemary Butler:** We had an interesting debate in the Chamber last week on this issue. The improvements to the pay structure and career prospects of teachers proposed in the Green Paper aim to raise the status of teaching and introduce a fair and realistic reward structure for the profession. We understand concerns about how performance assessment and pay should be treated in the future. Many of the issues raised by these proposals need to be covered in a constructive discussion with teacher associations and unions. We want to reach a consensus on the way that excellence in the classroom is rewarded, appropriate for Wales. We want to work with the Pre-16 Education Committee, of which Jenny Randerson is a Member, to help achieve this.

**Jenny Randerson:** In the fortnight since I tabled this question, we have had discussions on this issue. Would Rosemary Butler be prepared to consider the bold step of instituting a separate structure of remuneration for the teaching profession in Wales? This would attract people back into Wales as it would offer more attractive professional prospects than the structure in England.

**Rosemary Butler:** This is something that needs a UK-wide debate. Unions and employees have always wanted to ensure that they do away with local pay bargaining. They want to ensure that everyone gets the best remuneration. That is why these issues are dealt with nationally.

In Wales, we want to ensure that we exploit whatever is on offer UK-wide, whenever there is room for making a difference. We

**C2 Jenny Randerson:** Yn wyneb y pryder a fynegwyd gan undebau'r athrawon ynghylch y Papur Gwyrdd ‘Y Gorau ar gyfer Addysgu a Dysgu’, sut y mae Rosemary Butler yn bwriadu cynnig set realistig o gynigion i'r dyfodol, mewn perthynas â strwythur a thâl y proffesiwn addysgu? (OAQ214JS)

**Rosemary Butler:** Cawsom ddadl ddiddorol am y mater hwn yn y Siambr yr wythnos diwethaf. Nod y gwelliannau i strwythur tâl a rhagolygon gyrfa athrawon a gynigir yn y Papur Gwyrdd yw codi statws addysgu a chyflwyno strwythur tâl teg a realistig ar gyfer y proffesiwn. Yr ydym yn deall y pryderon ynghylch sut y dylid ymdrin ag asesu perfformiad a thâl i'r dyfodol. Rhaid ymdrin â llawer o'r materion a godwyd yn sgîl y cynigion hyn mewn trafodaeth adeiladol gydag undebau a chymdeithasau athrawon. Yr ydym ni eisiau sicrhau consensws o ran y ffordd o wobrwyo rhagoriaeth yn y dosbarth, mewn modd sydd yn briodol i Gymru. Yr ydym yn awyddus i weithio gyda'r Pwyllgor Addysg Cyn-16—pwyllgor y mae Jenny Randerson yn Aelod ohono—er mwyn helpu i gyflawni hyn.

**Jenny Randerson:** Yn ystod y pythefnos a aeth heibio ers imi osod y cwestiwn hwn, yr ydym wedi cynnal trafodaethau ar y mater. A fyddai Rosemary Butler yn barod i ystyried y cam beiddgar o sefydlu strwythur tâl ar wahân ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru? Byddai hyn yn denu rhagor o bobl yn ôl i Gymru gan y byddai'n cynnig rhagolygon proffesiynol mwy deniadol na'r strwythur yn Lloegr.

**Rosemary Butler:** Mae hwn yn fater y mae gofyn ei drafod ar draws y DU gyfan. Mae'r undebau a'r gweithwyr wedi bod yn awyddus bob amser i sicrhau eu bod yn cael gwared â'r arfer o fargeinio am dâl yn lleol. Maent eisiau sicrhau bod pawb yn cael y tâl gorau. Dyna pam yr ymdrinnir â'r materion hyn yn genedlaethol.

Yng Nghymru, rhaid inni sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr hyn a gynigir ledled y DU, pryd bynnag y ceir cyfle i wneud

want to ensure that teachers in Wales are given the best conditions to attract and retain them.

**Owen John Thomas:** A yw Rosemary Butler yn cydnabod effaith negyddol y baich biwrocraidd ar y broses ddysgu? A wnaiff hi roi ystyriaeth briodol i gwtogi'r fiwrocraetiaeth ar y cyfle cyntaf er mwyn codi safonau dysgu ac ysbryd athrawon?

**Rosemary Butler:** Everyone agrees that we should do away with bureaucracy and that teachers should be able to teach and not be bound by red tape.

We need to ensure that children in Wales get the best start in life and the best education available. It is up to the Assembly to ensure that we deliver the curriculum in the finest way. If getting rid of red tape is one of those ways, that is what we will do.

**Jonathan Morgan:** Does Rosemary Butler not agree that the best way of allocating money ring-fenced for the rewarding of teachers, would be to devolve money to headteachers and governors? These are the people who are best placed to understand the needs of teachers and schools, as opposed to a centralised and rigid performance related pay system set by Westminster and Whitehall.

**Rosemary Butler:** I hope we will not have a rigid PRP system set by Whitehall. The crux of the debate we had last week and the point of the questions and answer that I have already given is that we want to ensure whatever system introduced is flexible, understandable and easily administered. I am not convinced that we should, at present, decide how much money should be given to governors. Some governors want more and others want less. Getting good governors is an issue the Assembly needs to address.

gwahaniaeth. Rhaid inni sicrhau y rhoddir yr amodau gorau i athrawon yng Nghymru er mwyn eu denu a'u cadw.

**Owen John Thomas:** Does Rosemary Butler recognise the negative effect that the burden of bureaucracy places upon the teaching process? Will she give consideration at the first opportunity to cut down on the bureaucracy to raise teaching standards and the spirit of teachers?

**Rosemary Butler:** Mae pawb yn gytûn y dylem gael gwared â biwrocraetiaeth ac y dylai athrawon allu addysgu a pheidio â chael eu clymu gan fiwrocraetiaeth.

Rhaid inni sicrhau bod plant yng Nghymru yn cael y cychwyn gorau i'w bywydau a'r addysg orau sydd ar gael. Cyfrifoldeb y Cynulliad yw sicrhau ein bod yn cyflwyno'r cwricwlwm yn y ffordd orau un. Os mai cael gwared â biwrocraetiaeth yw un o'r ffyrdd hynny, dyna fydd raid inni ei wneud.

**Jonathan Morgan:** Onid yw Rosemary Butler yn cytuno mai'r ffordd orau o ddyrannu'r arian a warchodir er mwyn gwobrwyo athrawon, fyddai drwy drosglwyddo'r arian i benaethiaid a llywodraethwyr? Y rhain yw'r bobl sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion athrawon ac ysgolion, yn hytrach na system ganodedig a chaeth, wedi'i phennu gan San Steffan a Whitehall, i dalu athrawon yn ôl perfformiad.

**Rosemary Butler:** Yr wyf yn gobeithio na chawn system talu yn ôl perfformiad wedi'i phennu gan Whitehall. Craidd y ddadl a gawsom yr wythnos diwethaf, a phwynt y cwestiynau a'r atebion yr wyf eisoes wedi eu rhoi, yw ein bod am sicrhau bod unrhyw system a gyflwynir yn hyblyg, yn ddealladwy ac yn hawdd i'w gweinyddu. Nid wyf yn argyhoeddedig y dylem, ar hyn o bryd, benderfynu faint o arian y dylid ei roi i lywodraethwyr. Mae ar rai llywodraethwyr eisiau rhagor ac eraill lai. Mae cael llywodraethwyr da yn fater y mae'n rhaid i'r Cynulliad fynd i'r afael ag ef.

#### Adeiladau Ysgol Newydd New School Buildings

**Q3 John Griffiths:** What financial arrangements will be made for the provision of new and approved school buildings in Wales? (OAQ200VB)

I withdraw Question 4 and there is also a mistake in Question 3 on the agenda. It should be 'improved' rather than 'approved'.

**Rosemary Butler:** Thank you for pointing out that mistake. I was concerned about approved schools as opposed to improved schools. Capital resources for schools are provided mainly as basic credit approvals in the annual local government revenue settlement. Provision for 1999-2000 is £44.939 million. Planned provision for 2000-2001 and 2001-2002 is £44.4 million and £54.9 million respectively. The individual local authorities must decide what fraction of their BCA should be allocated to education and which schools should benefit in the light of local needs and priorities.

2:28 p.m.

In addition, £13.3 million is available to local authorities this year and the same amount will be available in 2000-2001, and again in 2001-2002, as part of government additional capital funding for schools initiative, put in place in 1997. As a result, £65 million in grant will be made available to Welsh schools over a period of five years.

From 1 July, the Assembly will have the power to fund the capital costs of voluntary aided church schools. This year there is a provision of £5.4 million and a planned provision of £6.8 million and £7 million for 2000-2001 and 2001-2002 respectively. The Assembly will be able to review levels of provisions for capital investment in schools for 2000-2001 onwards as part of its forthcoming discussions.

**John Griffiths:** I know you are aware of the problems facing the Durham Road schools in Newport east. The problems are similar to those outlined by Jane Davidson earlier, and they deal with the serious issues of health

**C3 John Griffiths:** Pa drefniadau ariannol a wneir ar gyfer darparu adeiladau ysgol newydd a chymeradwyedig yng Nghymru? (OAQ200VB)

Yr wyf yn tynnu Cwestiwn 4 yn ei ôl a cheir hefyd gamgymeriad yng Nghwestiwn 3 ar yr agenda. Dylai ddarllen 'gwell' nid 'cymeradwyedig'.

**Rosemary Butler:** Diolch ichi am dynnu sylw at y camgymeriad hwn. Yr oeddwn yn bryderus ynghylch ysgolion cymeradwyedig o'u cyferbynnu ag ysgolion gwell. Darperir adnoddau cyfalaf ar gyfer ysgolion yn bennaf fel cymeradwyaethau credyd sylfaenol yn setliad refeniw blynyddol llywodraeth leol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer 1999-2000 yn £44.939 miliwn. Y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer 2000-2001 a 2001-2002 yw £44.4 miliwn a £54.9 miliwn. Rhaid i'r awdurdodau lleol unigol benderfynu pa ffraciwn o'u BCA y dylid ei ddyrannu ar gyfer addysg a pha ysgolion a ddylai elwa o hyn yn wyneb blaenoriaethau ac anghenion lleol.

Yn ychwanegol, mae £13.3 miliwn ar gael i awdurdodau lleol y flwyddyn hon a bydd yr un swm ar gael yn 2000-2001, ac unwaith eto yn 2001-2002, fel rhan o gynllun cyllid cyfalaf ychwanegol y llywodraeth i ysgolion, a sefydlwyd ym 1997. O'r herwydd, bydd grant o £65 miliwn ar gael i ysgolion Cymru dros gyfnod o bum mlynedd.

O 1 Gorffennaf ymlaen, bydd gan y Cynulliad y grym i ariannu costau cyfalaf ysgolion eglwysig dan gymorth gwirfoddol. Eleni mae yna ddarpariaeth o £5.4 miliwn a darpariaeth arfaethedig o £6.8 miliwn a £7 miliwn ar gyfer 2000-2001 a 2001-2002. Bydd y Cynulliad yn gallu adolygu lefelau'r ddarpariaeth ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion ar gyfer 2000-2001 ymlaen fel rhan o'i drafodaethau maes o law.

**John Griffiths:** Yr wyf yn gwybod eich bod yn ymwybodol o'r problemau sydd yn wynebu ysgolion Ffordd Durham yn nwyrain Casnewydd. Mae'r problemau yn debyg i'r rheini a amlinellwyd gan Jane Davidson yn



and safety. This is not simply a matter of inconvenience, lack of accommodation or the need to go from one school building to the next in transit. This matter relates to health and safety issues for the children and staff. Can you give me assurances that those problems will be dealt with and given high priority?

**Rosemary Butler:** I am aware of the Durham Road schools. I am also aware of the excellent standard of teaching. The extra-curricular activities—music, drama and singing—are quite exceptional. Despite the poor state of the buildings, the children are getting a first-class education. We recognise that the authorities are facing acute problems with the poor condition of school buildings, a legacy of years of under funding. Additional funds have been allocated to our local authorities to start addressing the problem, but this will take time. As to the position of the Durham Road bid in the private funding initiative we must wait until Peter Law has made his decision.

**Owen John Thomas:** Yn sgîl y diffyg darpariaeth ar gyfer plant awtistig yng Nghymru, a yw'r Ysgrifennydd yn bwriadu rhoi sêl bendith ar y cynllun i godi estyniad ar ysgol breswyl Heronsbridge ym Mhenybont?

**Rosemary Butler:** I do not have information on that school but I will find out and come back to you.

**David Davies:** I raise a point of order under Standing Order No. 6.27 and request that question 4 be asked, as educational disadvantages is an important matter. Will the Educational Secretary answer question 4?

**The Presiding Officer:** Point of order, David Davies. Question 4 was withdrawn by the questioner, I cannot reinstate it. Does David Davies have a supplementary question to ask on question 3?

gynharach, ac maent yn ymwneud â iechyd a diogelwch sydd yn faterion difrifol. Nid dim ond mater o anhwylustod, diffyg adeiladau neu orfod mynd o un adeilad ysgol i un arall yw hwn. Mae hyn yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch ar gyfer y plant a'r staff. Allwch chi roi sicrwydd inni yr eir i'r afael â'r problemau hynny ac y rhoddir blaenoriaeth uchel iddynt?

**Rosemary Butler:** Yr wyf yn ymwybodol o ysgolion Ffordd Durham. Yr wyf hefyd yn ymwybodol o'r safonau addysgu ardderchog. Mae'r gweithgareddau allgwricwlaidd—cerddoriaeth, drama a chanu—yn gwbl eithriadol. Er gwaethaf cyflwr gwael yr adeiladau, mae'r plant yn cael addysg o'r radd flaenaf. Yr ydym yn cydnabod bod yr awdurdodau yn wynebu problemau difrifol gyda chyflwr gwael adeiladau'r ysgol, gan iddo etifeddu effaith blynyddoedd o dangyllido. Dyrannwyd arian ychwanegol i'n awdurdodau lleol er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r broblem, ond bydd hyn yn cymryd amser. O ran sefyllfa cais Ffordd Durham yn y fenter cyllid preifat rhaid inni aros nes bydd Peter Law wedi gwneud ei benderfyniad.

**Owen John Thomas:** In view of the deficiency in the provision for autistic children in Wales, does the Secretary intend to give her blessing to the plan to build an extension to the residential school at Heronsbridge in Bridgend?

**Rosemary Butler:** Nid oes gennyf unrhyw wybodaeth am yr ysgol hon ond fe wnaif holi a dod yn ôl atoch.

**David Davies:** Hoffwn godi mater o drefn dan Reol Sefydlog Rhif 6.27 a gofyn am glywed cwestiwn 4, gan fod anfanteision addysgol yn fater pwysig. A fydd yr Ysgrifennydd Addysg gystal ag ateb cwestiwn 4?

**Y Llywydd:** Mater o drefn, David Davies. Mae'r holwr wedi tynnu cwestiwn 4 yn ôl, ni allaf ei adfer. A oes gan David Davies gwestiwn atodol i'w ofyn ynghylch cwestiwn 3?

**David Davies:** I have a supplementary question to ask, but it is on question 4.

**David Davies:** Mae gennyf gwestiwn atodol i'w ofyn, ond cwestiwn ynghylch cwestiwn 4 ydyw.

**The Presiding Officer:** I am afraid it is not possible to ask a supplementary question on question 4.

**Y Llywydd:** Mae gennyf ofn nad yw'n bosibl gofyn cwestiwn atodol ynghylch cwestiwn 4.

**David Davies:** What will the Secretary do to resolve educational disparities that are rife across Wales and that affect her constituency of Newport, as well as my constituency, Monmouth?

**David Davies:** Beth fydd yr Ysgrifennydd yn ei wneud i ddatrys anghyfartaledd addysgol sydd yn rhemp ledled Cymru ac sydd yn effeithio ar ei hetholaeth, Casnewydd, yn ogystal â'm hetholaeth innau ym Mynyw?

**The Presiding Officer:** That was an excellent supplementary question, and in order.

**Y Llywydd:** Yr oedd y cwestiwn yna yn gwestiwn atodol ardderchog, ac yn dderbyniol.

**Rosemary Butler:** We must address this issue. There should be no disparities in the delivery of education across Wales. For example, children living in a rural community should receive the same standard of education as those living in Rhondda Cynon Taff. The Under-16 Education Committee will focus on the issue of disparity, to ensure that education is delivered across the board.

**Rosemary Butler:** Rhaid inni ddelio â'r mater hwn. Ni ddylai fod yna unrhyw anghyfartaledd yn y modd y cyflwynir addysg ledled Cymru. Er enghraifft, dylai plant sydd yn byw mewn cymuned wledig dderbyn addysg o'r un safon â'r rheini sydd yn byw yn Rhondda Cynon Taf. Bydd y Pwyllgor ar Addysg Cyn-16 yn canolbwyntio ar y mater o anghyfartaledd, i sicrhau y darperir addysg yn gyfartal drwyddi draw.

Edwina Hart, the Finance Secretary will address local authority funding, and in the budget round she will make statements on the amount of money allocated to each authority. It is then up to authorities to ensure that they spend and deliver the policies handed down by the Assembly.

Bydd Edwina Hart, yr Ysgrifennydd Cyllid yn delio â chyllid awdurdodau lleol, ac yn rownd y gyllideb bydd yn gwneud datganiadau ynghylch y swm o arian a ddyrennir i bob awdurdod. Cyfrifoldeb yr awdurdodau, wedyn, yw sicrhau eu bod yn gwario ac yn cyflwyno'r polisïau a roddir iddynt gan y Cynulliad.

### **Diffyg Lle yn Ysgol Brynhyfryd Accommodation Problems in Ysgol Brynhyfryd**

**Q5 Alun Pugh:** Will Rosemary Butler make a statement on any plans she has to make an early visit to Ysgol Brynhyfryd, Ruthin, as part of her crumbling-schools tour, in view of the accommodation problems being experienced by that school? (OAQ217VB)

**C5 Alun Pugh:** A fydd Rosemary Butler gystal â gwneud datganiad ynghylch unrhyw gynlluniau sydd ganddi i ymweld ag Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun yn fuan, fel rhan o'i thaith o amgylch ysgolion sydd yn dadfeilio, yn wyneb y problemau sydd gan yr ysgol honno o ran diffyg lle? (OAQ217VB)

**Rosemary Butler:** I did not say that I was going on a crumbling-schools visit. I am hoping to visit as many schools as possible. I cannot visit more this year, but if an

**Rosemary Butler:** Ni ddywedais y byddwn yn mynd ar daith o amgylch ysgolion sydd yn dadfeilio. Yr wyf yn gobeithio ymweld â chynifer â phosibl o ysgolion. Ni allaf

invitation is extended I will be delighted to see Ysgol Brynhyfryd.

**Alun Pugh:** Many Welsh schools have suffered two decades of neglect, but Ysgol Brynhyfryd is in a worse state than most. You may have seen evidence of that in Monday's *Daily Post*. Do you accept that our four-year performance will be judged on putting right the neglect of 18 years?

**Rosemary Butler:** Obviously it will be an extremely difficult task. You said that there were 18 years of neglect. However, authorities have been issued with basic credit approvals. Denbighshire received £3.2 million in non-housing basic credit allocation, and it is for that authority to decide which services benefit from that funding. The authority has also been allocated a further £440,000 and an additional capital funding for schools initiative specifically for rebuilding, repairing and improving school buildings. Again, the authority must decide which school benefits most from this additional funding.

**Janet Ryder:** I declare an interest as Mayor of Ruthin and thank Alun Pugh for tabling that question. The state of the buildings in Brynhyfryd is a matter of concern for many people. I am glad to see that the Secretary has expressed interest in this problem.

The extra money that was allocated to Denbighshire County Council, and which the council itself allocated to various projects, approved by the Welsh Office, in a rolling three-year programme, did not make provisions for schools like Ysgol Brynhyfryd, which are desperately in need of attention. Instead, a certain group on Denbighshire County Council made provisions for an all-weather pitch. Does that fit the criteria for spending this money?

**Rosemary Butler:** As I said, the County

ymweld â rhagor ohonynt eleni, ond os caf wahoddiad byddwn wrth fy modd yn mynd i weld Ysgol Brynhyfryd.

**Alun Pugh:** Mae llawer o ysgolion Cymru wedi dioddef dau ddegawd o esgeulustod, ond mae Ysgol Brynhyfryd mewn cyflwr gwaeth na'r rhan fwyaf. Efallai eich bod wedi gweld tystiolaeth o hyn yn rhifyn dydd Llun o'r *Daily Post*. Ydych chi'n derbyn y bydd ein perfformiad pedair blynedd yn cael ei farnu ar gywiro 18 mlynedd o esgeulustod?

**Rosemary Butler:** Mae'n amlwg y bydd hon yn dasg anodd aruthrol. Dywedasoch fod yna 18 mlynedd o esgeulustod. Fodd bynnag, mae'r awdurdodau wedi cael y cymeradwyaethau credyd sylfaenol. Cafodd Sir Ddinbych £3.2 miliwn o ddyraniad credyd sylfaenol heb fod ar gyfer tai, a mater i'r awdurdod hwnnw fu penderfynu pa wasanaethau a fyddai'n elwa o'r arian hwnnw. Dyrannwyd £440,000 arall i'r awdurdod hefyd ynghyd â chyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer mentrau ysgolion yn arbennig ar gyfer ailadeiladu, atgyweirio a gwella adeiladau ysgolion. Unwaith eto, rhaid i'r awdurdod benderfynu pa ysgol fydd yn elwa fwyaf yn sgîl yr arian ychwanegol hwn.

**Janet Ryder:** Hoffwn ddatgan diddordeb fel Maer Rhuthun a diolch i Alun Pugh am osod y cwestiwn. Mae cyflwr yr adeiladau ym Mrynhyfryd yn fater o bryder i lawer o bobl. Yr wyf yn falch o weld bod yr Ysgrifennydd wedi dangos diddordeb yn y broblem hon.

Ni wnaethpwyd unrhyw ddarpariaethau ar gyfer ysgolion, fel Ysgol Brynhyfryd, y mae arnynt wir angen sylw dan yr arian ychwanegol a ddyrannwyd i Gyngor Sir Ddinbych, ac y bu i'r cyngor ei hun ei ddyrannu i amrywiol brosiectau, gyda chymeradwyaeth y Swyddfa Gymreig, mewn rhaglen dreigl tair blynedd. Yn hytrach, bu i grŵp penodol ar Gyngor Sir Ddinbych wneud darpariaethau ar gyfer cae chwarae pob-tywydd. A yw hynny yn cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer gwario'r arian hwn?

**Rosemary Butler:** Fel y dywedais, y Cyngor

Council decides on its local preferences. The money is allocated for educational purposes. If the authority chose to do something else with it, they obviously had very good reasons, but I would be interested to know what those reasons were.

Sir sydd yn penderfynu ar ei flaenoriaethau yn lleol. Dyrennir yr arian at ddibenion addysgol. Os dewisodd yr awdurdod wneud rhywbeth arall gyda'r arian, yr oedd ganddynt resymau da iawn am hynny, mae'n amlwg, ond byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed beth oedd y rhesymau hynny.

2:38 p.m.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development**

### **Cynlluniau Ffermio ar gyfer y Dyfodol Future Plans for Farming**

**Q1 Carwyn Jones:** Given the problems in farming that the Assembly has inherited, are there any all-Wales plans to move the industry forward? (OAQ178VB)

**C1 Carwyn Jones:** O ystyried y problemau ym maes ffermio yr etifeddodd y Cynulliad, a oes unrhyw gynlluniau ar lefel Cymru gyfan i yrru'r diwydiant yn ei flaen? (OAQ178VB)

**The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther):** Thank you, Carwyn, for speaking up as you always do.

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Diolch, Carwyn, am siarad fel yr ydych bob amser mor barod i wneud.

Farming faces severe difficulties and one thing this Assembly can say is that it has confronted and discussed those difficulties from the first few weeks. I am grateful for that and I know Welsh farmers will be.

Mae ffermio yn wynebu anawsterau difrifol ac un peth y gall y Cynulliad hwn ei ddweud yw ei fod wedi trafod a mynd i'r afael â'r anawsterau hynny o'r wythnosau cyntaf. Yr wyf yn ddiolchgar am hyn fel ag y bydd ffermwyr Cymru, fe wn.

The First Secretary and I are determined to do all we can to help the industry adapt and secure a viable future. The Secretary of State for Wales launched industry-led action plans for lamb, beef, dairy and organic food, setting out a detailed agenda for action to help these sectors and to support farm business development. The action plans, implemented through the Agri-Food Partnership and the Regional Agri-Food Group, which I recently launched and alluded to yesterday, will be available to Assembly Members on the Assembly intranet as soon as possible.

Mae'r Prif Ysgrifennydd a minnau yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i helpu'r diwydiant i addasu a sicrhau dyfodol ymarferol. Lansiodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru gynlluniau gweithredu dan arweiniad y diwydiant ar gyfer cig oen, cig eidion, llaeth a bwyd organig, gan bennu agenda fanwl er mwyn gweithredu i helpu'r sectorau hyn a chefnogi datblygiad busnesau fferm. Bydd y cynlluniau gweithredu, a roddwyd ar waith drwy gyfrwng y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth a'r Grŵp Bwyd-Amaeth Rhanbarthol—cynlluniau a lansiodd gennyf yn ddiweddar ac y cyfeiriais atynt ddoe—ar gael i Aelodau'r Cynulliad ar fewnwyd y Cynulliad cyn gynted â phosib.

A substantial allocation of £3.8 million of Welsh Office funding has been made available to support investment in added

Mae dyraniad sylweddol o £3.8 miliwn o arian y Swyddfa Gymreig ar gael i gefnogi buddsoddiad mewn prosesu gwerth

value processing, new products and marketing developments. The Welsh Development Agency has a new brief to support food promotion and economic development in the food sector. Support for food promotion has more than doubled to £1.816 million and the agency's total programme in support of the food sector in the current year will be over £6.5 million.

**Carwyn Jones:** Within the Bridgend constituency there are large numbers of farmers who grow crops rather than hold livestock and dairy farms. What are your plans to improve prospects and encourage the sale of crops coming from these farms?

**Christine Gwyther:** I have referred to the three sectors currently under consideration, from which we can take examples of good practice. I am reviewing the need to develop added value supply chains in less traditional sectors, including biomass, cereals, timber, energy crops or speciality crops like herbs. There is no avenue that we will not go down to try to shorten supply chains and make them more effective.

**Rhodri Glyn Thomas:** Ar sail cwestiwn Carwyn, a gaf i ofyn i Christine a yw hi'n credu y bydd y mesurau a amlinellwyd ganddi yn helpu ffermwyr sydd ar hyn o bryd yn wynebu methdaliad?

Mae ffermwyr da byw a ffermwyr llaeth yn wynebu sefyllfa ariannol ddybryd iawn. A yw hi'n credu y bydd yr hyn y mae wedi'i argymhell yn helpu'r bobl hynny? Os nad yw hi, a yw'n meddwl fod gan y Cynulliad gyfrifoldeb tuag at y sector arbennig honno a'r ffermwyr hynny?

**Christine Gwyther:** Things are very difficult in farming today. One thing that has emerged strongly from these action plans is that they are industry-led. They have not been designed in ivory towers: they have been discussed within the industry, as all the groups are chaired by people from the industry. Working with the industry and not against it is the way forward.

ychwanegol, cynnyrch newydd a datblygiadau marchnata. Mae gan Awdurdod Datblygu Cymru gylch gorchwyl newydd i gefnogi gweithgareddau hybu bwyd a datblygu'r economi yn y sector bwyd. Mae'r gefnogaeth ar gyfer hybu bwyd wedi mwy na dyblu i £1.816 miliwn a bydd rhaglen gyfan yr asiantaeth i gefnogi'r sector bwyd yn y flwyddyn gyfredol dros £6.5 miliwn.

**Carwyn Jones:** O fewn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr ceir nifer fawr o ffermwyr sydd yn tyfu cynydau yn hytrach na chadw ffermydd llaeth a da byw. Beth yw eich cynlluniau i wella'r rhagolygon ac annog gwerthiant cynydau a gynhyrchir o'r ffermydd hyn?

**Christine Gwyther:** Yr wyf wedi cyfeirio at y tri sector sydd dan sylw ar hyn o bryd ac o'r rhain gallwn gymryd enghreifftiau o ymarfer da. Yr wyf yn adolygu'r angen i lunio cadwyni cyflenwi gwerth ychwanegol mewn sectorau llai traddodiadol, gan gynnwys bio-màs, grawnfwyd, pren, cynydau ynni neu gnydau arbenigol megis perlyisiau. Nid oes yr un llwybr na wnawn ei archwilio i geisio lleihau cadwyni cyflenwi a'u gwneud yn fwy effeithiol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Based on Carwyn's question, may I ask Christine whether she thinks the measures she has outlined will assist farmers who are currently facing bankruptcy?

Livestock and dairy farmers are facing a most dire financial situation. Does she believe that what she has recommended will help those people? If not, does she believe that the Assembly has a responsibility towards that particular sector and those farmers?

**Christine Gwyther:** Mae pethau'n anodd iawn yn y byd ffermio heddiw. Un peth a ddaeth i'r amlwg o'r cynlluniau gweithredu hyn yw eu bod dan arweiniad y diwydiant ei hun. Ni chawsant eu cynllunio mewn tyrau ifori: fe'u trafodwyd o fewn y diwydiant, gan mai pobl o'r diwydiant yw cadeiryddion yr holl grwpiau. Gweithio gyda'r diwydiant ac nid yn ei erbyn yw'r ffordd ymlaen.

**Mick Bates:** As a practical person, I welcome such plans on behalf of industry. However, I am increasingly concerned that the very people being discussed will not have the money to invest allowing them to move forwards in the terms that you described.

What are your plans to encourage all Welsh institutions to use Welsh food, which would assist the current situation by increasing the sales of all our products?

**Christine Gwyther:** As you know, most institutions must go out to tender for their cafeterias and school meals. However, we should market Welsh foods in such a way that local authorities and other authorities place a greater value on quality.

**Richard Edwards:** Given all the different strategies you referred to, it is clearly even more important that farmers are good businessmen and businesswomen. There is widespread concern among farmers about the appropriateness of current business support arrangements. There is a strong desire for support to be tailored more effectively to meet their needs. Has your department taken this into account?

**Christine Gwyther:** Yes. All of a sudden we are asking farmers to be business people, and some are fulfilling these roles for the first time. The WDA has addressed this problem by establishing a Farm Development Strategy Group. It will be an all-Wales steering group to drive development forward across all the farming sectors. It will develop plans for a Wales-wide network of demonstration farms.

The First Secretary and I, together with Rhodri Glyn Thomas, were at Gelli Aur the other day. Gelli Aur is a demonstration farm that illustrates the help available to farmers in a very practical way, explaining technology transfer and best practice, including best business practice.

**Mick Bates:** Fel rhywun ymarferol, yr wyf yn croesawu cynlluniau o'r fath ar ran diwydiant. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu fwy a mwy na fydd gan yr union bobl dan sylw yr arian i'w fuddsoddi er mwyn symud ymlaen yn y modd y disgrifiwch chi.

Beth yw eich cynlluniau i annog pob sefydliad yng Nghymru i ddefnyddio bwyd o Gymru? Gallai hyn gynorthwyo'r sefyllfa bresennol drwy gynyddu gwerthiant ein holl gynyrrch.

**Christine Gwyther:** Fel y gwyddoch, rhaid i'r rhan fwyaf o sefydliadau wahodd tendrau ar gyfer eu pryddau ysgolion a'u caffeterias. Fodd bynnag, dylem farchnata bwydydd Cymru yn y fath fodd fel bod awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill yn rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd.

**Richard Edwards:** O ystyried yr holl strategaethau y cyfeiriasoch atynt, mae'n amlwg ei bod hi hyd yn oed yn bwysicach bod ffermwyr yn wŷr a gwragedd busnes. Gwelir cryn bryder ymysg ffermwyr am briodoldeb y trefniadau cyfredol i gefnogi busnesau. Mae yna awydd cryf i'r gefnogaeth gael ei theilwrio yn fwy effeithiol i fodloni eu hanghenion. A yw eich adran chi wedi cymryd hyn i ystyriaeth?

**Christine Gwyther:** Ydyw. Yn ddisymwth yr ydym yn gofyn i ffermwyr fod yn bobl fusnes, ac mae rhai yn cyflawni'r rolau hyn am y tro cyntaf. Mae'r Awdurdod Datblygu wedi mynd i'r afael â'r broblem hon drwy sefydlu Grŵp Strategaeth Datblygu Ffermydd. Bydd yn grŵp llywio ar gyfer Cymru-gyfan i roi hwb i ddatblygiadau ledled yr holl sectorau ffermio. Bydd yn llunio cynlluniau ar gyfer rhwydwaith Cymru-gyfan o ffermydd arddangos.

Bu'r Prif Ysgrifennydd a minnau, ynghyd â Rhodri Glyn Thomas, yng Ngelli Aur y diwrnod o'r blaen. Fferm arddangos yw Gelli Aur ac mae'n dangos yr help sydd ar gael i ffermwyr mewn ffordd ymarferol iawn, gan esbonio trosglwyddiad technoleg a'r ymarfer gorau, gan gynnwys yr ymarfer gorau o safbwynt busnes.

## **Bwydydd a Addaswyd yn Enetig Genetically Modified Foods**

**Q2 Nick Bourne:** What action does Christine Gwyther propose to take in relation to genetically modified foods and a possible moratorium on the use of such foods? (OAQ187JS)

**Christine Gwyther:** The First Secretary has announced that the Assembly will act as the food assessment body for applications to market novel foods for the first time in Wales. It will be advised by the Advisory Committee on Novel Foods and Processes and by other relevant expert Committees in the same way as Ministers of the Crown.

The Assembly cannot ban GM foods unilaterally, as this would be a breach of European Union legislation and a moratorium on the commercial growing of GM crops could not be sustained under EU law.

**Nick Bourne:** Provided we find a way to be consistent with EU law, will she bring forward plans for a moratorium on the commercial release of genetically modified crops, a step advocated by the Prince of Wales; the Royal Society for the Protection of Birds; the British Medical Association; the Government's own scientific advisors, English Nature as well as the Select Committee on Science and Technology? Will she also say something on the clear labelling of GM food?

**Christine Gwyther:** As I said, the Assembly cannot ban GM foods unilaterally. It must comply with the requirements of EU legislation, and a ban would be a direct breach of that legislation. From July 1 this year, the National Assembly for Wales will be the assessor body for applications. The Assembly will make a decision based on advice provided by the Advisory Committee on Novel Foods and Processes.

**C2 Nick Bourne:** Pa gamau y mae Christine Gwyther yn bwriadu eu cymryd yng nghyswllt bwydydd a addaswyd yn enetig a moratoriwm posibl ar ddefnyddio bwydydd o'r fath? (OAQ187JS)

**Christine Gwyther:** Mae'r Prif Ysgrifennydd wedi cyhoeddi y bydd y Cynulliad yn gweithredu fel y corff asesu bwyd ar gyfer ceisiadau i farchnata bwydydd newydd am y tro cyntaf yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Brosesau a Bwydydd Newydd, a Phwyllgorau arbenigol priodol eraill, yn ei gynghori yn yr un modd ag y gwna Gweinidogion y Goron.

Ni all y Cynulliad wahardd bwydydd a addaswyd yn enetig yn unochrog, gan y byddai hyn yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ac ni ellid cynnal moratoriwm ar dyfu cynydu a addaswyd yn enetig yn fasnachol dan gyfraith yr UE.

**Nick Bourne:** A bwrw ein bod yn dod o hyd i ffordd i fod yn gyson â chyfraith yr UE, a fydd hi yn bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer moratoriwm ar ryddhau'n fasnachol gnydau a addaswyd yn enetig—cam a gefnogir gan Dywysog Cymru; y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar; Cymdeithas Feddygol Prydain; ymgynghorwyr gwyddonol y Llywodraeth ei hun, English Nature yn ogystal â'r Pwyllgor Dethol ar Wyddoniaeth a Thechnoleg? A fydd hi hefyd gystal â dweud rhywbeth am osod labeli clir ar fwydydd a addaswyd yn enetig?

**Christine Gwyther:** Fel y dywedais, ni all y Cynulliad wahardd bwydydd a addaswyd yn enetig yn unochrog. Rhaid iddo gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth yr UE, a byddai gwaharddiad yn torri'r deddfwriaeth honno yn uniongyrchol. O 1 Gorffennaf eleni ymlaen, Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd y corff asesu ar gyfer ceisiadau. Bydd y Cynulliad yn gwneud penderfyniad a fydd yn seiliedig ar gyngor a geir gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Brosesau a Bwydydd Newydd.

On the labelling of GM foods, the UK is leading the way in Europe by applying the EU requirements to restaurants and other caterers. That requirement will come into force on 19 September 1999. I would also like to see labelling of animal feed and I believe that the European Union will act positively on this issue. Farmers have indicated that they want this to happen because they do not want to face another BSE crisis. They want to be seen as prudent, practical and careful in the buying of their feed.

**Brian Gibbons:** There are some GM foods currently on the market. Is Christine happy about the safety of these foods?

**Christine Gwyther:** I would like to see them all labelled and we must maintain consumer choice on this issue. The Assembly should press for the labelling of GM foods—indicating animal feed—in our supermarkets and restaurants.

2:48 p.m.

**Gareth Jones:** Yr wyf wedi gwrandio ar gwestiynau yn ymwneud â'r bwydydd hyn ac ar sawl ateb. A ydym yn twyllo ein hunain? Ym mhob un o'r atebion glywaf, mae yna gyfeiriad at Ewrop—Ewrop hyn, Ewrop llall. A fyddai Christine yn cytuno â mi nad oes pwynt bellach i ni ofyn y cwestiynau hyn? Yr ydym wedi trosglwyddo'r rheolaeth a'r grym i ddeddfwriaeth Ewropeaidd, a hwy sydd yn dylanwadu ar yr hyn sydd yn digwydd yng Nghymru. Ai dyna'r ffaith, ac nad oes waeth inni drin a thrafod cyn belled ag y mae'r bwydydd yma yn y cwestiwn?

**Christine Gwyther:** There is every point in discussion. This forum is exactly the right one to be talking about genetically modified foods in Wales. The National Assembly is not a toothless monster. I believe we should use our powers, even if they are only lobbying powers. Our lobbying power is immense and we should be using it to benefit

O safbwynt labelu bwydydd a addaswyd yn enetig, mae'r DU yn arwain y ffordd yn Ewrop drwy roi gofynion yr UE ar waith ar gyfer bwytai a chwmnïau arlwydo eraill. Bydd y gofyniad hwn yn dod i rym ar 19 Medi 1999. Byddwn hefyd yn hoffi gweld porthiant anifeiliaid yn cael eu labelu ac yr wyf yn credu y bydd yr Undeb Ewropeaidd yn ymddwyn yn bositif ar y mater hwn. Mae ffermwyr wedi dynodi eu bod am weld hyn yn digwydd gan nad ydynt am wynebu argyfwng BSE arall. Maent yn awyddus i gael eu gweld yn ymddwyn yn bwylllog, yn ymarferol a gofalus wrth brynu eu porthiant.

**Brian Gibbons:** Mae peth bwydydd a addaswyd yn enetig i'w cael ar y farchnad ar hyn o bryd. A yw Christine yn hapus am ddiogelwch y bwydydd hyn?

**Christine Gwyther:** Hoffwn weld yr holl fwydydd wedi'u labelu a rhaid inni sicrhau bod cwsmeriaid yn cael dewis yn y mater hwn o hyd. Dylai'r Cynulliad bwysu am labelu bwydydd a addaswyd yn enetig—gan ddynodi porthiant yr anifeiliaid—yn ein huwchfarchnadoedd a'n bwytai.

**Gareth Jones:** I have listened to questions about these foods and to a number of the replies. Are we deceiving ourselves? In each of the answers and replies I hear, there is reference to Europe—Europe this, Europe the other. Would Christine agree with me that by now there is no point in asking these questions? We have transferred the control and power to European legislation and they influence what happens in Wales. Is not that the fact of the matter, and that there is no point in discussion as far as these foods are concerned?

**Christine Gwyther:** Mae yna bob rheswm inni drafod. Y fforwm hwn yw'r union un i'w ddefnyddio ar gyfer trafod bwydydd a addaswyd yn enetig yng Nghymru. Nid anghenfil di-rym yw'r Cynulliad Cenedlaethol. Yr wyf yn credu y dylem ddefnyddio ein pwerau, hyd yn oed os mai dim ond pwerau lobio ydynt. Mae ein pwerau



the people of Wales. If that includes talking about genetically modified crops, I am very happy to do that.

lobïo yn sylweddol a dylem eu defnyddio er lles pobl Cymru. Os yw hynny yn cynnwys trafod cynydau a addaswyd yn enetig, yr wyf yn fodlon iawn gwneud hynny.

### **Ffurflenni'r System Integredig Gweinyddu a Rheoli Integrated Administration and Control System Forms**

**Q3 Kirsty Williams:** When will integrated administration and control system forms be issued to Welsh farmers in the year 2000? (OAQ183JS)

**C3 Kirsty Williams:** Pryd y bydd ffurflenni system integredig gweinyddu a rheoli yn cael eu dosbarthu i ffermwyr Cymru yn y flwyddyn 2000? (OAQ183JS)

**Christine Gwyther:** We plan to issue year 2000 IACS forms (that means what happens and where in farms in Wales) to all Welsh farmers by the end of next March.

**Christine Gwyther:** Yr ydym yn bwriadu cyflwyno ffurflenni IACS y flwyddyn 2000 (sydd yn golygu beth sydd yn digwydd ac ym mhle ar ffermydd yng Nghymru) i holl ffermwyr Cymru erbyn diwedd mis Mawrth nesaf.

**Kirsty Williams:** Is Christine Gwyther aware that this year Welsh farmers received their IACS forms some six weeks later than our English neighbours did? This was after the traditional bank holiday weekend when they are usually completed, and half way through the lambing season. If you were involved in the industry you would know this is a very tiring and stressful time. This year is even worse given that we do not know what we will receive for the stock when they finish.

**Kirsty Williams:** A yw Christine Gwyther yn ymwybodol bod ffermwyr Cymru, eleni, wedi derbyn eu ffurflenni IACS oddeutu chwe wythnos yn hwyrach na'n cymdogion yn Lloegr? Yr oedd hyn ar ôl y penwythnos gŵyl banc traddodiadol pan gânt eu cwblhau fel arfer, a hanner ffordd drwy'r tymor ŵyna. Pe byddech yn gysylltiedig â'r diwydiant fe fyddech yn gwybod bod hwn yn amser anodd a blinedig iawn. Mae eleni yn waeth fyth o gofio na wyddwn beth a gawn am y stoc yn y pen-draw.

This is just part of the bad deal Welsh farmers get compared with their English counterparts. We do not have a Welsh organic aid scheme, yet one exists in England. Our subsidies are often paid much later in Wales than they are in England. Will Christine Gwyther consider introducing a farmers' charter similar to that in the Republic of Ireland, which will guarantee a level of service from the Welsh Office Agriculture Division to Welsh farmers?

Dim ond rhan o'r fargen wael y mae ffermwyr Cymru yn ei chael o'i gymharu â'u cymheiriaid yn Lloegr yw hon. Nid oes gennym gynllun cymorth organig yng Nghymru, er bod un i'w gael yn Lloegr. Telir ein cymorthdaliadau yn llawer mwy diweddar yng Nghymru nag yn Lloegr. A fyddai Christine Gwyther yn barod i ystyried cyflwyno siarter ffermwyr tebyg i'r un a geir yng Ngweriniaeth Iwerddon, er mwyn gwarantu lefel gwasanaeth gan Adran Amaeth y Swyddfa Gymreig i ffermwyr Cymru?

**Christine Gwyther:** The timing of the despatch of IACS forms does not govern payment. I think we would all agree that the arrival of payment is rather more important than when the form is completed. The Welsh Office (the Assembly will take over this

**Christine Gwyther:** Nid yw amseriad dosbarthu ffurflenni IACS yn pennu'r taliad. Yr wyf yn credu y byddai pawb yn cytuno bod y taliad ei hun ychydig yn bwysicach na pha bryd y cwblheir y ffurflen. Mae'r Swyddfa Gymreig (trosglwyddir y

responsibility) is investing £16 million over the next three years to change the way the Common Agricultural Policy is administered in Wales because of the history of delays in CAP payments to Welsh farmers. As a point of interest, EC regulations state that applications need to be lodged by 15 May, so although the six-week delay was regrettable, it did not affect eligibility.

cyfrifoldeb hwn i'r Cynulliad) yn buddsoddi £16 miliwn dros y tair blynedd nesaf er mwyn newid y ffordd y gweinyddir y Polisi Amaeth Cyffredin yng Nghymru oherwydd yr hen hanes o oedi gyda thaliadau'r Polisi Amaeth i ffermwyr Cymru. Fel mater o ddiddordeb, noda rheoliadau CE fod yn rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn 15 Mai, felly, er mor anffodus oedd yr oedi o bron i chwe wythnos, nid oedd neb yn anghymwys o'r herwydd.

### **Cynllun Cymorth Prosesu Lloi Calf Processing Aid Scheme**

**Glyn Davies:** In view of the informal arrangement between parties, I did intend to withdraw question 6. However, I understand that Members may have prepared a response so, in the event of our reaching that question, I do intend to argue but I will not pursue it with a supplementary.

**Glyn Davies:** Yn wyneb y trefniant anffurfiol rhwng pleidiau, yr oeddwn wedi bwriadu tynnu cwestiwn 6 yn ei ôl. Fodd bynnag, yr wyf yn deall efallai fod yr Aelodau wedi paratoi ateb felly, os cyrhaeddwn y cwestiwn hwnnw, yr wyf yn bwriadu dadlau ond ni wnaf ei ddilyn gyda chwestiwn atodol.

**Q4 Glyn Davies:** Will Christine Gwyther support the extension of the calf processing aid scheme until a significant export market for Welsh beef has been restored? (OAQ208JS)

**C4 Glyn Davies:** A yw Christine Gwyther yn barod i gefnogi ymestyn y Cynllun Cymorth Prosesu Lloi nes y bydd y farchnad allforio cig eidion wedi ei hadfer i raddau helaeth? (OAQ208JS)

**Christine Gwyther:** The calf processing aid scheme will end on 31 July 1999. The Government has twice extended the scheme beyond its original closure date, which was 30 November 1998, in recognition of the difficulties facing producers at the time. However, market conditions continue to improve and the prospect of beef exports expands the market available for finished animals, as well as existing possibilities for UK stock to replace the large quantities of second quality beef still being imported.

**Christine Gwyther:** Bydd y Cynllun Cymorth Prosesu Lloi yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 1999. Mae'r Llywodraeth wedi ymestyn y cynllun y tu hwnt i'r dyddiad cau gwreiddiol, sef 30 Tachwedd 1998, ddwywaith er mwyn cydnabod yr anawsterau a wynebai cynhyrchwyr ar y pryd. Fodd bynnag, mae cyflwr y farchnad yn dal i wella ac mae rhagolygon allforio cig eidion yn ymestyn y farchnad sydd ar gael i anifeiliaid wedi eu pesgi, yn ogystal â'r posibilïadau presennol i stoc y DU gymryd lle'r nifer fawr o gig eidion o safon eilradd sydd yn cael ei fewnforio o hyd.

**Glyn Davies:** Yesterday, we discussed the difficult situation facing the dairy industry. Will Christine accept that to end the processing aid scheme at this stage will be yet another blow to the dairy industry at a time when it cannot really stand it? Does she also accept that the dairy-type cattle that will not be taken from the market when there is

**Glyn Davies:** Ddoe, buom yn trafod y sefyllfa anodd sydd yn wynebu'r diwydiant llaeth. A yw Christine yn derbyn y bydd dileu'r cynllun cymorth prosesu yn awr yn ergyd arall eto i'r diwydiant llaeth ar adeg pan na all oddef hynny? A yw hi hefyd yn derbyn y bydd y gwartheg llaeth na fydd yn cael eu tynnu oddi ar y farchnad pan na fydd

no demand will lead to longer-term problems for the beef industry in Wales? Does she also acknowledge that allowing so many calves, for which there will be no market when this scheme ends, will lead to welfare problems in the Welsh industry?

**Christine Gwyther:** Agenda 2000 proposals envisage the elimination of the scheme by the end of 1999 anyway. Therefore, any short-term measure now would be extremely short-term. However, I do realise that farmers have concerns. Slaughterers who foresee a shortage of home-produced beef on the UK market have welcomed the ending of the scheme. Obviously all the most stringent animal welfare rules will still apply.

**Cynog Dafis:** Hoffwn bwysu'n galed ar Christine Gwyther i ymateb yn gadarnhaol i gwestiwn Glyn Davies ac i wasgu ar y Llywodraeth yn Llundain ac ar Nick Brown i gytuno i ymestyn y cynllun gymaint ag sydd yn bosibl hyd at y funud ddiwethaf.

Bydd Christine yn gwybod o'r ddadl ddoe, bod sefyllfa'r diwydiant llaeth yng Nghymru yn gwbl argyfyngus a bod yna gynhyrchwyr o'r ansawdd uchaf ar hyn o bryd yn sôn am adael y diwydiant. Mae pob cam sydd yn ysgafnhau'r problemau yn eithriadol o bwysig. Mae'r gallu i werthu lloi i'r cynllun hwn yn rhywfaint o gymorth ac fe fydd colli'r farchnad hon yn ychwanegu at y pwysau ac yn peri bod pobl yn gadael y diwydiant. Yr wyf yn derbyn na allwn fforddio gweld pobl yn gadael y diwydiant a hoffwn wasgu arni eto i wneud popeth i geisio cael ymestyniad o'r cynllun hwn.

**Christine Gwyther:** Thank you. I will reflect on those remarks.

galw amdanynt yn arwain at broblemau yn y tymor hwy ar gyfer y diwydiant cig eidion yng Nghymru? A yw hi hefyd yn cydnabod bod caniatáu cymaint o loi, na fydd marchnad ar eu cyfer pan ddaw'r cynllun hwn i ben, yn peri problemau lles i'r diwydiant yng Nghymru?

**Christine Gwyther:** Yn ôl cynigion Agenda 2000 rhagwelir y bydd y cynllun yn cael ei ddileu erbyn diwedd 1999 pa un bynnag. Felly, byddai unrhyw fesurau byrdymor yn awr yn hynod fyrdymor. Fodd bynnag, yr wyf yn sylweddoli bod gan ffermwyr eu pryderon. Mae'r lladd-dai sydd yn rhagweld prinder cig eidion wedi'i gynhyrchu gartref ym marchnad y DU yn croesawu gweld y cynllun yn dod i ben. Bydd yr holl reolau mwyaf llym i warchod lles anifeiliaid yn dal mewn grym, wrth gwrs.

**Cynog Dafis:** I wish to strongly urge Christine Gwyther to respond positively to Glyn Davies' question and to press the Government in London and Nick Brown to agree to extend this scheme as much as possible up until the last minute.

Christine will know from the debate yesterday that the situation of the dairy industry is totally critical and that there are producers of the highest quality at present who are thinking of leaving the industry. Every step that alleviates the problems is extremely important. Being able to sell calves to this scheme is of some assistance and losing this market would add to the pressures and cause people to leave the industry. I accept that we cannot afford for people to leave the industry and I press her to do everything possible to try to secure an extension of this scheme.

**Christine Gwyther:** Diolch yn fawr. Byddaf yn myfyrio ynghylch y sylwadau hyn.

### Gwaharddiad ar Gig Eidion ar yr Asgwrn Beef on the Bone Ban

**Q5 David Davies:** What progress has been made towards lifting the beef on the bone ban since 25 May 1999? (OAQ189JS)

However, the Business Committee was concerned about the size of the South East Wales Regional Committee. It felt that a membership of 26 could lead to an unwieldy body. In line with Standing Order No. 8.26, which allows Committees to resolve to establish one or more sub-committees, the Business Committee considered the options and costs associated with subdividing the Committee into two or three sub-committees. The majority view of the Business Committee was that the South East Wales Committee should operate via two sub-committees with a membership of 12 and 14 respectively, which would be comparable to the size of the other Regional Committees. However, it will be a matter for the South East Wales Committee, once elected, to decide how to manage its proceedings and activities.

It is proposed that Regional Committees will meet in the regions on Friday mornings. This would allow Members to attend Assembly proceedings in Cardiff on Thursdays and then travel to their region in the evening. Formal meetings of the Regional Committees will be held twice a term at different venues in their regions.

Regional Committees are seen as a crucial link between the Assembly and their local communities. At their first meeting, members will wish to consider how best they can achieve this link. They will also need to reach an early view on their relationship with public bodies in their region, and in so doing they will need to take account of Assembly Secretaries' and Subject Committees' roles within those public bodies. It will be for the Assembly to work in partnership with all sectors of Welsh society in developing and

ddau Bwyllgor Rhanbarth yr un diwrnod. Bydd Pwyllgorau Gogledd Cymru a De Orllewin Cymru yn cwrdd yr un diwrnod. Mae'r cyfarfod cyntaf, fe gredaf, ar 2 Gorffennaf. Bydd Pwyllgorau Canolbarth Cymru a De Ddwyrain Cymru hefyd yn cwrdd yr un diwrnod. Bydd hyn yn rhyddhau mwy o ddyddiau Gwener ar gyfer gwaith etholaeth.

Fodd bynnag, yr oedd y Pwyllgor Busnes yn bryderus ynglŷn â maint Pwyllgor Rhanbarth De Ddwyrain Cymru. Teimlai y gallai aelodaeth o 26 wneud y corff yn anhylaw. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 8.26, sydd yn caniatáu i'r Pwyllgor benderfynu sefydlu un neu fwy o is-bwyllgorau, ystyriodd y Pwyllgor Busnes yr opsiynau a'r costau sydd ynghlwm wrth rannu'r Pwyllgor yn ddau neu dri is-bwyllgor. Yr oedd mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor Busnes o'r farn y dylai Pwyllgor De Ddwyrain Cymru weithredu drwy gyfrwng dau is-bwyllgor, gydag aelodaeth o 12 a 14 y naill a'r llall, a fyddai'n cymharu â maint y Pwyllgorau Rhanbarth eraill. Fodd bynnag, mater i Bwyllgor De Ddwyrain Cymru, ar ôl iddo gael ei ethol, fydd penderfynu sut i reoli ei drafodion a'i weithgareddau.

Awgrymir bod y Pwyllgorau Rhanbarth yn cwrdd yn y rhanbarthau ar fore Gwener. Byddai hyn yn caniatáu i Aelodau fod yn bresennol yn nhrefodion y Cynulliad yng Nghaerdydd ar ddydd Iau, gan deithio i'w rhanbarth gyda'r nos. Câi cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgorau Rhanbarth eu cynnal ddwywaith y tymor mewn gwahanol fannau yn eu rhanbarthau.

Caiff y Pwyllgorau Rhanbarth eu hystyried yn ddolen gyswllt holl bwysig rhwng y Cynulliad a'u cymunedau lleol. Yn y cyfarfod cyntaf, bydd yr aelodau am ystyried y ffordd orau o wireddu'r ddolen gyswllt hon. Bydd angen hefyd iddynt lunio barn ar eu perthynas gyda'r cyrff cyhoeddus yn eu rhanbarth ac, wrth wneud hynny, bydd angen iddynt roi sylw i rolau Ysgrifenyddion y Cynulliad a'r Pwyllgorau Pwnc o fewn y cyrff cyhoeddus hynny. Dyletswydd y Cynulliad fydd gweithio mewn partneriaeth

implementing policy. As a Member for Swansea, I was delighted to attend a meeting last Monday evening where all the Assembly Members for South West Wales were invited to meet with council leaders and chief executives to start to develop partnerships and decide on the key issues that affect our region. I am sure that that spirit of partnership and co-operation will inform the deliberations of all regions.

Joint working will help us ensure realistic policies and planning. It will help facilitate feedback on the operation and effectiveness of the Assembly's policies. Partners in the regions in the local government, voluntary, business and other sectors will have different experiences and perspectives and will be able to report on the effectiveness of Assembly policies from very different viewpoints. We must ensure that we are in a position to listen to our partners and to work with them to benefit from their experiences and knowledge. Working with them will help us to develop co-ordinated approaches to issues, resulting in greater focus and concentration of resources in the regions. By fostering these relationships, the Regional Committees will be well placed to take soundings on how well the Assembly is doing.

Our partners will also have an important role in helping the Regional Committees in their role as advisers on matters affecting their regions, and to consider how best to develop that role. The partnerships and the Regional Committees will be able to support each other in developing approaches to the issues affecting different regions. I hope that we can discuss this aspect further in this afternoon's debate.

At their first meeting, Regional Committees will need to elect their Chairs and determine their forward work programme. This programme should include arrangements for consulting with local communities and for

gyda phob sector o gymdeithas yng Nghymru wrth ddatblygu polisi a'i roi ar waith. Fel Aelod dros Abertawe, pleser mawr imi oedd mynd i gyfarfod nos Lun ddiwethaf lle gwahoddyd holl Aelodau'r Cynulliad dros Dde Orllewin Cymru i gwrdd ag arweinwyr a phrif weithredwyr y cynghorau i ddechrau datblygu partneriaethau a phenderfynu ar y materion allweddol sydd yn effeithio ar ein rhanbarth. Yr wyf yn siŵr y bydd yr ysbryd hwnnw o bartneriaeth a chydweithredu yn goleuo trafodaethau pob rhanbarth.

Bydd gweithio ar y cyd yn help inni sicrhau polisiau a chynllunio realistig. Bydd yn help i hwyluso ymateb ar weithrediad ac effeithiolrwydd polisiau'r Cynulliad. Bydd gan bartneriaid yn y rhanbarthau mewn llywodraeth leol, y sector gwirfoddol, y sector busnes a sectorau eraill brofiadau a safbwyntiau gwahanol a gallant adrodd ar effeithiolrwydd polisiau'r Cynulliad o sawl gwahanol bersbectif. Rhaid inni sicrhau ein bod mewn sefyllfa i wrando ar ein partneriaid a gweithio gyda hwy fel eu bod yn elwa o'n profiadau a'n gwybodaeth. Bydd gweithio gyda hwy yn help inni ddatblygu ffyrdd cyd-drefnus o ymdrin â materion, gyda'r canlyniad bod mwy o ffocws i adnoddau yn y rhanbarth a'u bod yn cael eu cydgyfeirio'n well. Drwy feithrin y cysylltiadau hyn, bydd y Pwyllgorau Rhanbarth mewn sefyllfa dda i wrando a chanfod i ba raddau y mae'r Cynulliad yn llwyddo.

Bydd gan ein partneriaid hefyd rôl bwysig i'w chwarae i helpu'r Pwyllgorau Rhanbarth yn eu rôl hwy fel ymgynghorwyr ar faterion sydd yn effeithio ar eu rhanbarth, ac i ystyried y ffyrdd gorau o ddatblygu'r rôl honno. Bydd y partneriaethau a'r Pwyllgorau Rhanbarth yn gallu cynnal ei gilydd wrth ddatblygu ffyrdd o ymdrin â'r materion sydd yn effeithio ar wahanol ranbarthau. Gobeithiaf y gallwn drafod yr agwedd hon ymhellach yn y ddadl brynhawn heddiw.

Yn eu cyfarfod cyntaf, bydd angen i'r Pwyllgorau Rhanbarth ethol Cadeirydd a phenderfynu ar eu rhaglen waith. Dylai'r rhaglen hon gynnwys trefniadau i ymgynghori â chymunedau lleol ac i nodi'r



identifying the principal issues on which the Committees propose to advise the Assembly in the coming year.

This debate will help emphasise the importance this Assembly attaches to Regional Committees. I hope it will raise public awareness of their function and generate interest in them. I hope it will also generate a shared vision of their role among Assembly Members and assist deliberations within the Committees.

Therefore, I hope you will vote in support of the principles for Regional Committee working as set out in the document.

**Janet Ryder:** I welcome everything that has been said about Regional Committees. I can become quite excited about the idea of Regional Committees because for many people they will be the manifestation of the Assembly working close to people. That is important, especially for people in north Wales.

I look forward to these Committees starting work. Although they have no power, they will bring the Assembly much closer to people. They will act as a sounding board and as a new partnership between the Assembly and regional local government. Although the Partnership Council will be the major partnership between the Assembly and local government, there will be many areas of work which need to be developed much more at a regional level. Policies developed in the Assembly will need to be discussed and delivered locally and have further work done on them. I was pleased to note the use of the word 'advice' because these Regional Committees can be used to discuss Assembly policies and for advice to be brought back to the Assembly from the regions. This uses the Committees as a sounding board, as has been said, to judge how the Assembly is working.

Many other groups, such as voluntary, business and health groups, want to join in and start working with the Assembly. This

prif faterion y mae'r Pwyllgorau yn bwriadu rhoi cyngor i'r Cynulliad arnynt dros y flwyddyn i ddod.

Bydd y drafodaeth hon yn help i bwysleisio'r pwysigrwydd a rydd y Cynulliad i'r Pwyllgorau Rhanbarth. Gobeithiaf y bydd yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u swyddogaeth ac yn ysgogi diddordeb ynddynt. Gobeithiaf hefyd y bydd yn llunio gweledigaeth o'u rôl ymysg Aelodau'r Cynulliad, gweledigaeth y maent yn ei rhannu, ac y bydd hynny'n gymorth i'r trafod yn y Pwyllgorau.

Gobeithiaf, felly, y byddwch yn pleidleisio o blaid yr egwyddorion gweithio a nodwyd ar gyfer y Pwyllgorau Rhanbarth yn y ddogfen hon.

**Janet Ryder:** Croesawaf bopeth sydd wedi ei ddweud am y Pwyllgorau Rhanbarth. Mae'r syniad o Bwyllgorau Rhanbarth yn fy nghyffroi gan mai drwy'r pwyllgorau hyn y gwêl llawer o bobl fod y Cynulliad yn gweithio'n agos at bobl. Mae hynny'n bwysig, yn enwedig i bobl yng ngogledd Cymru.

Edrychaf ymlaen at weld y Pwyllgorau hyn yn dechrau ar eu gwaith. Er nad oes ganddynt unrhyw rym, byddant yn dod â'r Cynulliad yn llawer nes at bobl. Byddant yn gyfrwng cyfathrebu ac yn bartneriaeth newydd rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol ranbarthol. Er mai'r Cyngor Partneriaeth fydd y brif bartneriaeth rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol, bydd llawer o feysydd gwaith y bydd angen eu datblygu ar lefel llawer mwy rhanbarthol. Bydd angen i bolisïau a ddatblygir yn y Cynulliad gael eu trafod a'u rhoi ar waith yn lleol, gan weithio ymhellach arnynt. Yr wyf yn falch o glywed y gair 'cyngor' yn cael ei ddefnyddio oherwydd gellir defnyddio'r Pwyllgorau Rhanbarth hyn i drafod polisïau'r Cynulliad a dod â chyngor yn ôl i'r Cynulliad o'r rhanbarthau. Bydd hyn yn manteisio ar y Pwyllgorau fel cyfrwng cyfathrebu, fel y dywedwyd, i farnu sut mae'r Cynulliad yn gweithio.

Mae llawer o grwpiau eraill, megis grwpiau gwirfoddol, busnes ac iechyd, am chwarae eu rhan a dechrau gweithio gyda'r Cynulliad. Ar

can be best achieved at a regional and local level. There are some aspects of policy that Committees have perhaps already discussed. This morning in the Local Government, Environment, Planning, Housing and Transport Committee, we discussed the waste management programme that needs to be developed, and how that might well be developed on a regional basis. Although that will involve some local authorities working together, as many already do, these Regional Committees could be the ideal forum for those ideas to be developed.

3:28 p.m.

There are some problems related to the regional policies of the Assembly, which have been alluded to. There are instances where the boundaries are not co-terminous for all bodies and there will need to be careful thought given to prevent overlap and duplication. There also needs to be careful consideration of which bodies are represented on these Regional Committees but I hope that this might change as the subjects being discussed also change. I hope that careful thought will be given to where these Committees will meet. I think it is important that they move around their regions and meet in a number of suitable locations.

There is already a great deal of expectation within the regions of these Committees. I am pleased that they will be meeting very soon and I welcome the proposed work programme for their first meetings.

**David Davies:** May I also extend a slightly more cautious welcome for the Regional Committees. I have one or two concerns that I hope will be answered. The committees as I understand are being set up to ensure that Members are aware of concerns and issues, pertinent to their particular regions. I also hope that they are going to be a useful sounding board for members of the public to bring to the attention of the Members of the Assembly any issues that are worrying them.

I am concerned that there is no guarantee that the relevant secretaries are going to heed the

lefel ranbarthol a lleol y gellir cyflawni hyn orau. Mae yna rai agweddau polisi sydd wedi eu trafod eisoes gan Bwyllgorau. Fore heddiw yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol, yr Amgylchedd, Cynllunio, Tai a Thrafnidiaeth, buom yn trafod y rhaglen rheoli gwastraff y mae angen ei datblygu, a sut y gellid yn hwylus ei datblygu ar sail ranbarthol. Er y bydd hynny'n peri i rai awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd, fel y gwna llawer yn barod, gallai'r Pwyllgorau Rhanbarth hyn fod yn fforwm delfrydol i ddatblygu'r syniadau hyn ynnddynt.

Mae yna rai problemau ynglŷn â pholisïau rhanbarthol y Cynulliad, y cyfeiriwyd atynt eisoes. Mae yna enghreifftiau lle nad yw ffiniau pob corff yn cyd-fynd â'i gilydd a bydd gofyn am ystyriaeth ofalus er mwyn osgoi gorgyffwrdd a dyblygu. Mae angen ystyried yn ofalus hefyd pa gyrff a gynrychiolir ar y Pwyllgorau Rhanbarth hyn ond gobeithiaf y gall hyn newid wrth i'r pynciau sydd yn cael eu trafod newid hefyd. Gobeithiaf y rhoddir ystyriaeth fanwl i fan cyfarfod y Pwyllgorau hyn. Mae'n bwysig yn fy marn i eu bod yn symud o gwmpas eu rhanbarth gan gwrdd mewn nifer o fannau addas.

Eisoes, disgwylir llawer gan y Pwyllgorau hyn yn y rhanbarthau. Yr wyf yn falch y byddant yn cwrdd yn fuan iawn a chroesawaf y rhaglen waith arfaethedig ar gyfer eu cyfarfod cyntaf.

**David Davies:** A gaf innau estyn croeso ychydig mwy pwylllog i'r Pwyllgor Rhanbarth. Mae un neu ddau o bethau yn fy mhryderu, a gobeithiaf gael atebion iddynt. Fel a ddeallaf, mae'r pwyllgorau'n cael eu sefydlu i sicrhau bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r pryderon a'r materion sydd yn berthnasol i'w rhanbarthau arbennig hwy. Gobeithiaf innau hefyd y byddant yn gyfrwng buddiol i aelodau'r cyhoedd ddwyn gerbron sylw Aelodau'r Cynulliad unrhyw faterion sydd yn eu poeni hwythau.

Yr wyf yn bryderus na cheir unrhyw sicrwydd bod yr ysgrifenyddion perthnasol

advice of these committees. I hope that these secretaries will assure us that they will be taking note of what is said. I also think it is important that we bear in mind the costs of these committees and the time spent by Assembly Members at them. I hope that the money and time will be well spent. If Assembly Members are simply going to act as yes-men to the Government, and to rubber stamp everything which the Government of Wales wants to be done and take no notice of the concerns of members of the public, then quite frankly there is no point in having them. Obviously if they are going to look at issues in an open-minded fashion and be prepared to listen, then there may be a strong argument for them. I hope that this is the route which Members will take.

I was particularly concerned by paragraph 7 in the supporting paper which advises against duplication of work being done by the Assembly Secretaries. It is my own view that the Assembly Members on the Regional Committees should be free to look into any issue which is of concern to them. With those few concerns in mind, I would like to extend a cautious welcome and I hope that they work well.

**Michael German:** I believe the Regional Committees must be the link between the Assembly here in Cardiff and the people of Wales. I hope that what we are trying to create here, is not an Assembly on the Taff but an Assembly for everywhere in Wales: an Assembly on every river in Wales if we can manage to find and name them all. However, the essential element is what dialogue will take place during the course of these Regional Committees: what is that dialogue about and how it is being addressed. I think this document provides a very sound beginning. I would like to address my remarks to paragraph 6 of the attached document, the methods of working. I think this is the key and at the heart of what will be decided. It is the manner in which these Committees will work. Undoubtedly they will be different from one area to another and I think that is very valid. I think they must respect the needs of each community and work in a way which suits the needs of those

yn mynd i dalu sylw i gyngor y pwyllgorau hyn. Gobeithiaf y gwnaiff yr ysgrifenyddion ein sicrhau y byddant yn cymryd sylw o'r hyn a ddywedir. Teimlaf hefyd ei bod yn bwysig inni gofio am gost y pwyllgorau hyn a'r amser a dreulir ynddynt gan Aelodau'r Cynulliad. Gobeithiaf y bydd yn arian ac amser wedi eu gwario'n dda. Os nad yw Aelodau'r Cynulliad ond yn mynd i gowtowio i'r Llywodraeth, a rhoi eu sêl bendith ar bopeth y mae Llywodraeth Cymru am ei wneud heb gymryd unrhyw sylw o bryderon aelodau'r cyhoedd, yna, a bod yn gwbl onest, nid oes unrhyw ddiben iddynt. Wrth reswm, os ydynt yn mynd i edrych ar faterion gyda meddwl agored, a'u bod yn barod i wrando, yna hwyrach fod dadl gref o'u plaid. Gobeithiaf mai'r llwybr yma a ddewisir gan yr Aelodau.

Yr oeddwn yn pryderu'n arbennig am baragraff 7 yn y papur wrth gefn sydd yn cynghori yn erbyn dyblygu'r gwaith a wneir gan Ysgrifenyddion y Cynulliad. Yn fy marn i, dylai Aelodau'r Cynulliad ar y Pwyllgorau Rhanbarth fod yn rhydd i ymchwilio i unrhyw fater sydd a wnelo â hwy. Gan gadw'r amheuon hyn mewn cof, hoffwn estyn croeso pwylllog iddynt a gobeithiaf y byddant yn gweithio'n dda.

**Michael German:** Credaf fod yn rhaid i'r Pwyllgorau Rhanbarth fod yn ddolen gyswllt rhwng y Cynulliad yma yng Nghaerdydd a phobl Cymru. Gobeithiaf mai'r hyn yr ydym yn ceisio ei greu yma yw nid Cynulliad ar y Taf ond Cynulliad i bobman yng Nghymru: Cynulliad ar bob afon yng Nghymru os llwyddwn i ddod o hyd iddynt oll a'u henwi. Fodd bynnag, yr elfen hanfodol yw pa ddeialog a geir yn ystod y Pwyllgorau Rhanbarth hyn: beth fydd testun y deialog a sut yr ymdrinnir ag ef. Tybiaf fod y ddogfen hon yn ddechrau cadarn iawn. Hoffwn gyfeirio fy sylwadau at baragraff 6 yn y ddogfen sydd ynghlwm, sef y dulliau gweithio. Credaf mai dyma graidd a chalon yr hyn a benderfynir. Mae'n sôn am y ffordd y bydd y Pwyllgorau hyn yn gweithio. Yn sicr, byddant yn wahanol o un ardal i'r llall a chredaf fod hynny'n ddilys iawn. Credaf fod rhaid iddynt barchu anghenion pob cymuned a gweithio mewn ffordd sydd yn gweddu i anghenion y cymunedau hynny. Yr wyf

communities. I am also mindful of the fact that we have this major problem with south east Wales, which of course needs to be addressed in the longer term; how a Regional Committee which essentially comprises over half of the Assembly, can effectively do the job of being that appropriate link. However, the reason I wanted to look at paragraph 6 is because of the matters related to the way we construct our debates within that framework.

If you read it literally, it could be interpreted as a one-way street, the Assembly taking out its views to the people and asking for that discussion to be held. I do not think that is the purpose of the Regional Committees of what is behind this paragraph. It is a two-way directional flow and it is the nature of the consultation that I want to address. Real consultation is taking people's views, listening to what people have to say and taking those views into account in the spirit of debate, argument and logic. That is why they have to be as open and effective as possible. We have to allow the instigation of debate to come, not only from the Regional Committee but also from the public it represents in those areas, by perhaps allowing petitioners to come and speak; for campaigners to come and present their issues and for those who simply want to question, rather than within a fixed work programme of the Regional Committee. Therefore, it is about consultation and dialogue rather than a one-way street. For that reason I believe that these Regional Committees can fulfil a fundamentally different role from the way we work here in this Assembly.

This Assembly has already proven that it can be different. It has this duality of approach to the Executive and the Committees. I think the Regional Committees have got to fulfil another function again. They are in fact the sounding board for ideas of the people of Wales as well as a chance for us to test our ideas and our logic. That is why I would like all Members to think, when they set up the Regional Committees, about the methods which will enable that dialogue to take place. Be open, be flexible, be brave and above all

hefyd yn ymwybodol o'r ffaith bod gennym broblem fawr yn ne ddwyrain Cymru, y mae'n rhaid rhoi sylw iddi yn y tymor hwy; sut y gall Pwyllgor Rhanbarth, sydd i bob diben yn cynnwys dros hanner y Cynulliad, weithredu'n effeithiol fel y ddolen gyswllt hon. Fodd bynnag, y rheswm pam yr oeddwn am edrych ar baragraff 6 yw oherwydd y materion sydd yn ymwneud â'r ffordd yr ydym yn llunio ein dadleuon oddi mewn i'r fframwaith hwnnw.

Os darllenwch ef yn llythrennol, gellid ei ddehongli fel stryd unffordd, y Cynulliad yn mynd â'i farn at y bobl ac yn gofyn am gynnal y drafodaeth honno. Ni thymiaf mai diben y Pwyllgor Rhanbarth yw'r hyn sydd yn sail i'r paragraff hwn. Mae'n llif i'r ddau gyfeiriad a'r hyn yr wyf am roi sylw iddo yw natur yr ymgynghori. Mae gwir ymgynghori yn golygu cymryd barn pobl, gwrando ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud a chymryd y farn honno i ystyriaeth yn unol ag ysbryd trafod, dadlau a rhesymeg. Dyna pam fod rhaid inni fod mor agored ac effeithiol â phosibl. Mae'n rhaid inni ganiatáu i'r drafodaeth gael ei chychwyn, nid yn unig gan y Pwyllgor Rhanbarth ond hefyd gan y cyhoedd y mae yn eu cynrychioli yn yr ardaloedd hynny, drwy ganiatáu efallai i ddeisebwyr ddod yno a siarad; i ymgyrchwyr ddod yno a chyflwyno eu materion llosg ac i'r rheini sydd am ddod i ofyn cwestiynau, yn hytrach nag o fewn rhaglen waith benodedig y Pwyllgor Rhanbarth. Felly, mae'n fater o ymgynghori a deialog yn hytrach na stryd unffordd. Am y rheswm hwnnw credaf y gall y Pwyllgorau Rhanbarth hyn gyflawni rôl sylfaenol wahanol i'r ffordd yr ydym yn gweithio yma yn y Cynulliad.

Mae'r Cynulliad hwn eisoes wedi profi y gall fod yn wahanol. Mae yna ddeuliaeth yn y ffordd y mae'n ymdrin â'r Adran Weithredol a'r Pwyllgorau. Credaf fod gofyn i'r Pwyllgorau Rhanbarth gyflawni swyddogaeth arall eto. Hwy mewn gwirionedd yw'r cyfrwng i bobl Cymru leisio eu syniadau yn ogystal â'u bod yn gyfle inni roi prawf ar ein syniadau a'n rhesymeg. Dyna pam yr hoffwn i'r holl Aelodau feddwl, wrth sefydlu'r Pwyllgorau Rhanbarth, am y dulliau a fydd yn galluogi'r deialog hwnnw i

represent the whole of Wales.

**Phil Williams:** It was a belief in devolution more than a specific commitment to Wales which led me to join Plaid Cymru in 1961, and my commitment to devolution does not stop with the establishment of this Assembly. I would like to see devolution to regional assemblies in England and above all I would want to see further devolution within Wales. We will have failed if Cardiff becomes all-powerful in the political life of Wales and over dominant in economic and cultural life. The Liverpool *Daily Post* has a front-page headline today about a brain drain to Cardiff and it is a danger which we must face. Therefore, I think we must look forward to a time when these Regional Committees, with no power at the beginning, develop into bodies which, in partnership with local authorities and other bodies in the regions, have real powers of decision; that the people in every region of Wales feel they have power to control those decisions that affect their lives.

I want to bring attention to one possible problem which we should now anticipate: the question of boundaries between different public bodies. The circular to regional Members on the membership of Regional Committees referred to already, illustrates the problem, because I believe the regions follow the WDA boundaries but of course these do not coincide with the electoral regions. Now there is one good piece of news. I believe that training and enterprise council boundaries which were different again are now being realigned to be at least close to the WDA boundaries. However, these boundaries themselves cut across the boundaries of the unitary authorities. Then there is the Tourist Board which has now three regions and, with the tourist industry becoming more and more important, we have to recognise that we have here three regions which not only cut across the unitary authorities but basically follow the pre 1974

ddigwydd. Byddwch yn agored, yn hyblyg, yn ddewr ac, yn bennaf oll, cynrychiolwch Gymru gyfan.

**Phil Williams:** Cred mewn datganoli yn fwy nag ymrwymiad penodol i Gymru a'm harweiniodd i ymuno â Phlaid Cymru ym 1961, ac nid yw fy ymrwymiad i ddatganoli yn peidio gyda sefydlu'r Cynulliad hwn. Hoffwn weld datganoli i gynulliadau rhanbarthol yn Lloegr ac, uwchlaw popeth, hoffwn weld mwy o ddatganoli yng Nghymru. Byddwn wedi methu os daw Caerdydd yn holl-bwerus ym mywyd gwleidyddol Cymru a chanddi ormod o oruchafiaeth yn ein bywyd economaidd a diwylliannol. Mae gan *Daily Post* Lerpwl heddiw bennawd ar y dudalen flaen am ymfudiad ymennydd i Gaerdydd ac mae'n berygl y mae'n rhaid inni ei wynebu. Felly, credaf fod yn rhaid inni edrych ymlaen i gyfnod pan fydd y Pwyllgorau Rhanbarth hyn, sydd heb ddim grym ar y dechrau, yn datblygu'n gyrff sydd, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y rhanbarthau, â grym gwirioneddol i lunio penderfyniadau; y bydd pobl ym mhob rhanbarth o Gymru yn teimlo bod ganddynt rym i reoli'r penderfyniadau hynny sydd yn effeithio ar eu bywydau.

Hoffwn dynnu sylw at un broblem bosibl y dylem ei rhagweld yn awr, sef cwestiwn ffiniau rhwng gwahanol gyrff cyhoeddus. Mae'r cylchlythyr at yr Aelodau rhanbarthol am aelodaeth y Pwyllgorau Rhanbarth, y cyfeiriwyd ato eisoes, yn darlunio'r broblem, oherwydd credaf fod y rhanbarthau yn dilyn ffiniau'r Awdurdod Datblygu ond, wrth gwrs, nid yw'r rhain yn cyfateb i'r rhanbarthau etholiadol. Mae yna un newydd da. Credaf fod ffiniau'r cynghorau hyfforddi a menter, a oedd yn wahanol eto, yn cael eu haildrefnu fel y byddant yn agos o leiaf at ffiniau'r Awdurdod Datblygu. Fodd bynnag, mae'r ffiniau hyn eu hunain yn torri ar draws ffiniau'r awdurdodau unedol. Yna mae'r Bwrdd Croeso sydd â thri rhanbarth erbyn hyn a, chyda'r diwydiant twristiaeth yn dod yn fwy a mwy pwysig, mae'n rhaid inni gydnabod bod gennym yma dri rhanbarth sydd nid yn unig yn torri ar draws yr awdurdodau unedol ond sydd yn eu hanfod

boundaries. Then we come to the five health authorities. They are five like our electoral regions but they have five different sets of boundaries and it is a great pity that the reorganisation of the health authorities was completed before this Assembly was able to debate this restructuring. It is worth studying one of the problems facing proposals for regional government in England. People point to the lack of any sense of regional identity or any clear idea of which region people belong to. The fault goes back to the 1945-1950 Labour Government. I have looked in vain to historians to tell me whether it was a deliberate policy with a genuine sense of commitment or administrative chance that, in the regional structures of a very large number of public bodies set up in that post-war Government, in no two cases did the boundaries coincide. There was no structure that led to the natural development of regional consciousness.

I think 1999 is as important in the history of Wales as 1945 was in the history of the UK but let us not make the same mistake if we are indeed committed to genuine devolution. It is premature to debate an immediate change of boundaries. However, I would like to see the purposeful realignment of regional boundaries as one of the guidelines of the Assembly's work, informed by the debates of the regional meetings of the Regional Committees, as a necessary preamble to the real devolution of powers to the different parts of Wales.

3:38 p.m.

**Val Feld:** It is fascinating to have an historian in the Chamber. At least he is older than the rest of us.

I want to pick up one of my hobby-horses, about the involvement of people in this process, which has already been referred to by a number of other speakers. The Regional Committees are the most important route by which we are reaching out to people across Wales, building their confidence and persuading them that we are trying to tackle

yn dilyn ffiniau cyn-1974. Yna down at y pum awdurdod iechyd. Mae pump ohonynt, fel ein rhanbarthau etholiadol ni, ond mae ganddynt bum set wahanol o ffiniau ac mae'n drueni mawr fod yr ad-drefnu ar yr awdurdodau iechyd wedi ei gwblhau cyn i'r Cynulliad hwn allu ei drafod. Mae'n werth astudio un o'r problemau sydd yn wynebu'r cynigion o blaid llywodraeth ranbarthol yn Lloegr. Mae pobl yn cyfeirio at ddiffyg ymdeimlad o unrhyw hunaniaeth ranbarthol neu unrhyw syniad clir o ba ranbarth y perthyn pobl iddo. Mae'r bai i'w olrhain i Lywodraeth Lafur 1945-1950. Yr wyf wedi troi'n ofer at haneswyr am ateb i ganfod ai polisi bwriadol gyda gwir ymdeimlad o ymroddiad ynteu siawns weinyddol sydd i gyfrif am y ffaith nad yw ffiniau strwythurau rhanbarthol nifer fawr iawn o'r cyrff cyhoeddus a sefydlwyd gan y Llywodraeth honno ar ôl y rhyfel yn cyfateb i'w gilydd mewn unrhyw ddau achos. Nid oedd strwythur i arwain yn naturiol at ddatblygu ymwybyddiaeth ranbarthol.

Credaf fod 1999 yr un mor bwysig yn hanes Cymru ag oedd 1945 yn hanes y DU, ond peidied â gadael inni wneud yr un camgymeriad os ydym yn ymroi i ddatganoli gwirioneddol. Mae'n rhy gynnar i drafod newid ffiniau yn syth. Fodd bynnag, hoffwn weld aildrefnu pwrpasol ar ffiniau rhanbarthol fel un o ganllawiau gwaith y Cynulliad, i'w oleuo gan drafodaethau cyfarfodydd rhanbarthol y Pwyllgorau Rhanbarth, fel rhagarweiniad anhepgor i wir ddatganoli grym i wahanol rannau Cymru.

**Val Feld:** Mae cael hanesydd yn y Siambr yn hynod ddiddorol. O leiaf mae'n hŷn na'r gweddill ohonom.

Hoffwn droi at un o'm hoff themâu, sef cynnwys pobl yn y broses hon, rhywbeth y mae sawl siaradwr arall wedi cyfeirio ato. Y Pwyllgorau Rhanbarth yw'r dull pwysicaf a fydd gennym i geisio cyrraedd pobl ar draws Cymru, i ennyn eu hyder a'u perswadio ein bod yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau nid drwy fod yn wastraffus ond drwy geisio

the problems by not being spendthrift but by trying to find the solutions to the huge problems Wales faces. It is important that we give clear instructions to the Regional Committees that they should not merely liaise with public bodies and statutory authorities in the regions of Wales. Instead they are the arm of the Assembly that reaches out to communities at grass roots level. They must be the eyes and ears of the Assembly within the local communities.

We are aware how important the identification of people with their communities is as it contributes to their sense of self as a part of Wales. Therefore it is important that we use all of the regions so that all the parts of Wales are included in the Assembly's planning and deliberations. Since I have been an Assembly Member, people have been approaching me saying that it is nice to see me on the television.

There is a sense that we are bringing politics closer to people because they know us. They see us in the supermarkets and the pubs—*[Laughter.]*

Do they not see all of you in supermarkets? Well I still go shopping. I still have my feet firmly on the ground.

We can reach out to people via the Regional Committees and it is important that we do that. We should also ensure that the Regional Committees are consulting with and involving the people who are often excluded.

I return to the issue of there not being black and ethnic minority people in the Assembly. There is also a need to reach out to disabled people who cannot come to see us easily. It is important to ensure that women's organisations are consulted, as well as bigger organisations that still predominantly reflect the views of men in our society. It should be one of the Equal Opportunities Committee's tasks to monitor the extent to which the Regional Committees are succeeding in reaching out to the whole of Wales.

canfod atebion i'r problemau enfawr sydd yn wynebu Cymru. Mae'n bwysig ein bod ni'n rhoi cyfarwyddiadau clir i'r Pwyllgorau Rhanbarth mai nid cysylltu yn unig â chyrrff cyhoeddus ac awdurdodau statudol yn rhanbarthau Cymru y dylent ei wneud. Yn hytrach, hwy yw'r fraich o eiddo'r Cynulliad sydd yn estyn allan at gymunedau ar lawr gwlad. Dylent fod yn llygaid ac yn glustiau i'r Cynulliad mewn cymunedau lleol.

Yr ydym yn ymwybodol o pa mor bwysig yw hi bod pobl yn uniaethu â'u cymunedau gan fod hynny'n cyfrannu at eu hymdeimlad o fod yn rhan o Gymru. Mae'n bwysig felly ein bod yn defnyddio'r rhanbarthau i gyd fel bod pob rhan o Gymru yn cael ei chynnwys wrth i'r Cynulliad lunio'i gynlluniau a chynnal ei drafodaethau. Ers imi fod yn Aelod o'r Cynulliad, bu pobl yn dod ataf i ddweud ei bod yn braf fy ngweld ar y teledu.

Mae yna deimlad ein bod yn dod â gwleidyddiaeth yn nes at bobl am eu bod yn ein hadnabod. Maent yn ein gweld mewn archfarchnadoedd a thafarnau—*[Chwerthin.]*

Onid ydynt yn gweld pob un ohonoch mewn archfarchnadoedd? Wel, yr wyf i'n dal i fynd i siopa. Mae fy nhraed i yn parhau i fod yn gadarn ar y ddaear.

Gallwn estyn allan at bobl drwy'r Pwyllgorau Rhanbarth ac mae'n bwysig inni wneud hynny. Dylem hefyd sicrhau bod y Pwyllgorau Rhanbarth yn ymgynghori â phobl a gaeir allan yn aml ac yn rhoi llais iddynt.

Dof yn ôl at y pwynt nad oes digon o bobl ddu a phobl o leiafrifoedd ethnig yn y Cynulliad. Mae angen hefyd inni estyn allan at bobl anabl nad yw'n hawdd iddynt ddod i'n gweld. Mae'n bwysig sicrhau yr ymgynghorir â mudiadau menywod, yn ogystal â sefydliadau mwy sydd yn dal i adlewyrchu barn dynion yn ein cymdeithas yn bennaf. Dylai monitro i ba raddau y mae'r Pwyllgorau Rhanbarth yn llwyddo i estyn allan i bob cwr o Gymru fod yn un o dasgau'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

**Nick Bourne:** I agree with the first point that Val made which related to the importance of the Regional Committees. When the National Assembly Advisory Group took a road show around Wales there were more representations about the role of the Regional Committees than any other issue. The further away from Cardiff it got, the more important the Regional Committees became. I welcome this debate and was pleased that the Business Secretary initiated it.

I wish to express some concern and caution on the fact that these Regional Committees must take on a character of their own. The essence of the Regional Committees is that they reflect the region. They reflect the wishes of the elected representatives of that region and they should operate as the regional representatives wish. I seek reassurance that the motion proposed by Andrew Davies is intended as a guideline and not a firm blueprint. I know members of the Labour Cabinet are all free spirits and I am sure that there will be no wish to impose a standard blue print on all of the regions. I welcome the reassurance that I am getting.

I underline the fact that the Labour Group is a minority administration and a minority in all of the regions. In mid and west Wales they only have one representative, albeit a powerful one, to plead their cause.

I welcome the reassurance that Regional Committees must take on a character of their own. Under Standing Order No. 8.26, the Business Committee recommends splitting the committee. Under Standing Orders, it is a matter for the particular committee. Andrew said that but I hope he can reiterate the point, as it is important that these Regional Committees assuage the feelings of people away from Cardiff that their views are going to be heard and considered in this Chamber.

**Peter Black:** The fact that these Regional Committees are going to be the eyes and ears of the Assembly, as Val Feld said, is a point well taken. They are going to be an important

**Nick Bourne:** Cytunaf â phwynt cyntaf Val a gyfeiriai at bwysigrwydd y Pwyllgorau Rhanbarth. Pan aeth Grwp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol â sioe ben ffordd o amgylch Cymru cafwyd mwy o sylwadau am rôl y Pwyllgorau Rhanbarth nag unrhyw fater arall. Y pellaf yr âi o Gaerdydd, pwysicaf oll oedd y Pwyllgorau Rhanbarth. Croesawaf y ddadl hon ac yr oeddwn yn falch i'r Trefnydd ei chyflwyno.

Hoffwn fynegi peth pryder a chymell gofal ynglŷn â'r ffaith bod y Pwyllgorau Rhanbarth hyn i feithrin eu cymeriad eu hunain. Hanfod y Pwyllgorau Rhanbarth yw eu bod yn adlewyrchu'r rhanbarth. Maent yn adlewyrchu dymuniadau cynrychiolwyr etholedig y rhanbarth hwnnw a dylent weithredu yn unol â dymuniadau'r cynrychiolwyr rhanbarthol. Ceisiaf sicrwydd bod y cynnig a roddwyd gerbron gan Andrew Davies wedi ei fwriadu fel canllaw ac nid fel patrwm caeth. Gwn fod aelodau'r Cabinet Llafur i gyd â'u barn unigol ac yr wyf yn siwr na fydd unrhyw awydd i orfodi glasbrent safonol ar y rhanbarthau i gyd. Croesawaf y sicrwydd yr wyf yn ei gael.

Tanlinellaf y ffaith mai gweinyddiaeth leiafrifol yw'r Grwp Llafur, a lleiafrif ym mhob rhanbarth. Yng nghanolbarth a gorllewin Cymru nid oes ganddynt ond un cynrychiolydd, er bod hwnnw yn un grymus, i bledio eu hachos.

Croesawaf y sicrwydd bod yn rhaid i'r Pwyllgorau Rhanbarth feithrin eu cymeriad eu hun. Dan Reol Sefydlog Rhif 8.26, mae'r Pwyllgor Busnes yn argymhell rhannu'r pwyllgor. Dan y Rheolau Sefydlog, mater i'r pwyllgor unigol yw hynny. Dywedodd Andrew hynny ond hoffwn iddo ailadrodd y pwynt, gan ei bod yn bwysig bod y Pwyllgorau Rhanbarth hyn yn lliniaru ofnau pobl y tu allan i Gaerdydd na fydd eu barn yn cael ei chlywed a'i hystyried yn y Siambur hon.

**Peter Black:** Mae'r ffaith mai'r Pwyllgorau Rhanbarth hyn fydd llygaid a chlustiau'r Cynulliad, fel y dywedodd Val Feld, yn bwynt i'w gadw mewn cof. Byddant yn



way by which this Assembly can work in partnership, not just with organisations such as local authorities, voluntary organisations and businesses but also with the public.

I welcome the proposal to have an open forum or public question and answer session on a particular topic. That is a way in which the public can engage with the Assembly and the issues that we are addressing. We must use Regional Committees to listen and learn so that information is fed back into the Assembly processes. We must be wary that we are not going to delegate the role of consultation to them and rely on them for that role. We should look at ways to engage the public and the organisations through committees so they have direct input into the Assembly.

The Regional Committees are an important forum when we come to discuss Objective 1 funding and the link with Europe. There are many people who have a lot to say about how they wish our policies on Objective 1 to be shaped. If we are going to use the Assembly as a listen and learn forum, we need to take on board what is being said by local authorities, businesses, the voluntary sector and the economic forum and feed it back into the Assembly.

This returns us to the point that was raised by David Davies about how the Regional Committees are going to interact with the Assembly. There has to be a formal arrangement so that if a Regional Committee wanted to raise a point with the Assembly, it could be put onto the agenda of the relevant Committee or the Plenary session. We need to cover that issue when we look at how Regional Committees operate, as this paper does not cover it. I hope that the Business Committee thinks about that and returns to us with further proposals.

3:48 p.m.

**Alison Halford:** I am exceedingly jealous that Val Feld has time to go the supermarket and the pub. On a serious note, she is listening to the people and that is what the

ffordd bwysig i'r Cynulliad hwn allu gweithio mewn partneriaeth nid yn unig gyda sefydliadau fel awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol a busnesau, ond hefyd gyda'r cyhoedd.

Croesawaf y cynnig i gael fforwm agored neu sesiwn holi ac ateb gyhoeddus ar bwnc penodol. Drwy hynny rhoddir cyfrwng i'r cyhoedd gael llais yng ngŵydd y Cynulliad a'r materion yr ydym yn rhoi sylw iddynt. Rhaid inni ddefnyddio'r Pwyllgorau Rhanbarth i wrando a dysgu fel bod y wybodaeth yn cael ei bwydo'n ôl i brosesau'r Cynulliad. Rhaid inni ochel rhag dirprwyo'r rôl ymgynghori iddynt hwy a dibynnu arnynt am y rôl honno. Dylem chwilio am ffyrdd o lunio cyswllt â'r cyhoedd a'r mudiadau drwy bwyllgorau fel eu bod yn gallu cyfrannu'n uniongyrchol i'r Cynulliad.

Mae'r Pwyllgorau Rhanbarth yn fforwm pwysig pan ddown i drafod cyllid Amcan 1 a'r ddolen gyswllt gydag Ewrop. Mae llawer o bobl sydd â llawer i'w ddweud am y ffordd y maent am i'n polisiau ar Amcan 1 gael eu llunio. Os ydym i ddefnyddio'r Cynulliad fel fforwm gwranddo a dysgu, mae angen inni wrando ar yr hyn sydd yn cael ei ddweud gan awdurdodau lleol, busnesau, y sector gwirfoddol a'r fforwm economaidd a'i fwydo'n ôl i'r Cynulliad.

Daw hyn â ni yn ôl at y pwynt a godwyd gan David Davies am y ffordd y mae'r Pwyllgorau Rhanbarth yn mynd i ryngweithio gyda'r Cynulliad. Rhaid wrth drefniant ffurfiol fel bod posibl, pe bai Pwyllgor Rhanbarth am godi pwynt gyda'r Cynulliad, i hwnnw gael ei roi ar agenda'r Pwyllgor perthnasol neu'r Sesiwn Llawn. Mae angen inni ymdrin â hyn wrth edrych ar sut mae'r Pwyllgorau Rhanbarth yn gweithredu, gan nad yw'r papur hwn yn gwneud hynny. Gobeithiaf y bydd y Pwyllgor Busnes yn meddwl am hynny ac yn dod yn ôl atom gyda chynigion pellach.

**Alison Halford:** Yr wyf yn dra chenfigennus fod gan Val Feld amser i fynd i'r archfarchnad a'r dafarn. Ar nodyn difrifol, mae hi'n gwranddo ar bobl a dyna yw diben y

Assembly is about.

I would not like her very sound suggestion that the work of the Regional Committees should be monitored by the Committee on Equality of Opportunity to be lost among the other excellent contributions. Clearly we are suffering from a time problem; I will have to change my diary as I already have an appointment arranged for 2 July. Our journey to north Wales also takes more time. It is therefore of paramount importance that when the Regional Committee sits time is used to the greatest advantage. I think Val's suggestion is an excellent one; maybe I will see her in the pub later.

**Glyn Davies:** I was not worried about Val's visits to the supermarket and the pub; in fact I think that is rather encouraging. Most of my best political debates over the years have taken place in the pub, and supermarkets are the new thing. In the spirit of equal opportunities, I now spend more time in the supermarket than I perhaps did in the past. I may have to do more of that now that I have been elevated to the Committee on Equality of Opportunity. What worried me more was Val's reference to Phil's age. I am reaching a stage where I think you should be careful of allowing any remarks that discriminate against the elderly.

I am unequivocally a supporter of Regional Committees, and I want them to be strong and politically influential voices for all the regions of Wales. That is particularly important in mid Wales, where a strong feature of the debate that preceded the referendum was the danger that mid Wales would be neglected because of the domination of Cardiff and north and south Wales. The prospect of having Regional Committees played a significant part in persuading some people in Mid Wales to vote yes in the referendum. Bearing in mind the closeness of the result, the prospect of strong Regional Committees may be a key reason why we have an Assembly at all.

My opposition to the Assembly during the

Cynulliad.

Ni fyddwn am i'w hawgrym tra synhwyrol y dylai gwaith y Pwyllgor Rhanbarth gael ei fonitro gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal gael ei golli ymysg y cyfraniadau eraill rhagorol. Mae'n amlwg ein bod yn dioddef o broblem amser; bydd yn rhaid imi newid fy nyddiadur gan fod gennyf apwyntiad wedi ei drefnu'n barod ar gyfer 2 Gorffennaf. Mae ein siwrnai ni i ogledd Cymru hefyd yn cymryd mwy o amser. Mae o'r pwys mwyaf felly, pan fydd y Pwyllgor Rhanbarth yn eistedd, fod amser yn cael ei ddefnyddio i'r fantais eithaf. Teimlaf fod awgrym Val yn un rhagorol; efallai y gwelaf hi yn y dafarn yn ddiweddarach.

**Glyn Davies:** Nid oeddwn yn poeni am ymweliadau Val â'r archfarchnad a'r dafarn; yn wir, mae'n fy nghalonogi. Mae'r rhan fwyaf o'm dadleuon gwleidyddol gorau i dros y blynyddoedd wedi digwydd yn y dafarn, ac archfarchnadoedd yw'r peth newydd. Yn ôl ysbryd cyfle cyfartal, yr wyf bellach yn treulio mwy o amser yn yr archfarchnad nag yr arferwn ei wneud efallai. Hwyrach y bydd rhaid imi wneud hynny gan fy mod wedi fy nyrchafu i'r Pwyllgor ar Gydraddoldeb Cyfle. Yr hyn a boenai fwy arnaf oedd cyfeiriad Val at oed Phil. Yr wyf yn cyrraedd oed i feddwl y dylech fod yn ofalus rhag caniatáu unrhyw sylwadau sydd yn camwahaniaethu yn erbyn yr henoed.

Yr wyf yn gefnogwr brwd i'r Pwyllgorau Rhanbarth, ac yr wyf am iddynt fod yn lleisiau cryf a gwleidyddol ddylanwadol dros bob rhanbarth o Gymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghanolbarth Cymru, lle'r oedd y perygl y câi'r canolbarth ei esgeuluso oherwydd goruchafiaeth Caerdydd a gogledd a de Cymru yn nodwedd gref o'r ddadl a ragflaenodd y refferendwm. Bu'r gobaith o gael Pwyllgorau Rhanbarth yn allweddol er perswadio rhai pobl yng Nghanolbarth Cymru i bleidleisio 'ie' yn y refferendwm. Gan gofio mor agos oedd y canlyniad, gallai'r disgwyliad y ceid Pwyllgorau Rhanbarth cryf fod yn un rheswm allweddol pam fod gennym Gynulliad o gwbl.

Y consyrn hwnnw oedd y rheswm pennaf

referendum campaign and over the last two or three years was driven principally by that concern. I have always been afraid that an Assembly stationed in Cardiff could lead to mid Wales being disadvantaged. For 20 years I have spent most of my public time in promoting the political and social interests of mid Wales. I was born in the middle of the region and I have seen—and I am not going to admit to exactly how long ago it was—all the people I was in school with leave the region. It has improved to a large extent, but there is a genuine fear that the Assembly could lead to the return of that situation. I think the Regional Committees can play a significant part in making sure that does not happen.

The Assembly, and several speakers have referred to this, must allow Regional Committees to develop in their own different ways. We do not want a template. We do not want the Assembly to decide in any way how those Regional Committees will develop. The Committees will be a link between the Assembly and the people and the organisations in the regions. In some areas that will be their dominant role; in others, and this will be true of most places, their role will be to bring forward a significant local issue because the Assembly wants that issue brought forward.

In mid Wales, the strongest role the Regional Committee can play is to give the region a political voice. It will stop mid Wales becoming a forgotten part of Wales due to the Assembly's location, which is a concern for many people. I want to play a significant role in giving mid Wales that voice. There has been much talk about inclusiveness since this Assembly was established. I welcome that. Inclusiveness can mean a whole host of things; in fact, it can probably mean what you want it to. It can mean involving everyone in all sectors of society. In this Chamber it can mean involving all political parties in how we go forward. However, the context in which inclusiveness is important to mid Wales, is that it means involving all parts of Wales.

dros fy ngwrthwynebiad i'r Cynulliad yn ystod ymgyrch y reffendwm a thros y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf. Yr wyf wedi ofni erioed y gallai Cynulliad wedi ei leoli yng Nghaerdydd arwain at ddiffyg mantais i ganolbarth Cymru. Ers 20 mlynedd yr wyf wedi treulio'r rhan fwyaf o'm hamser cyhoeddus yn hyrwyddo buddiannau gwleidyddol a chymdeithasol canolbarth Cymru. Ganwyd fi yng nghanol y rhanbarth ac yr wyf wedi gweld—er nad wyf am gyfaddef faint yn union sydd ers hynny—bawb oedd yn yr ysgol gyda mi yn gadael y rhanbarth. Mae pethau wedi gwella cryn lawer, ond mae ofn gwirioneddol y gallai'r Cynulliad arwain at yr un sefyllfa eto. Teimlaf y gall y Pwyllgorau Rhanbarth chwarae rhan bwysig i sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

Rhaid i'r Cynulliad, ac mae sawl siaradwr wedi cyfeirio at hyn, ganiatáu i'r Pwyllgorau Rhanbarth ddatblygu hyn yn eu ffyrdd gwahanol eu hunain. Nid ydym am gael patrwm unffurf. Nid ydym am i'r Cynulliad benderfynu o gwbl sut mae'r Pwyllgorau Rhanbarth hyn i ddatblygu. Bydd y Pwyllgorau'n ddolen gyswllt rhwng y Cynulliad a'r bobl a'r mudiadau yn y rhanbarthau. Mewn rhai ardaloedd dyna fydd eu rôl pennaf, eu rôl fydd dwyn mater lleol o bwys gerbron oherwydd bod y Cynulliad am i'r mater hwnnw gael ei ddwyn gerbron.

Yng nghanolbarth Cymru, y rôl cryfaf y gall y Pwyllgor Rhanbarth ei chwarae yw rhoi llais gwleidyddol i'r rhanbarth. Bydd yn atal y canolbarth rhag troi'n rhan anghofiedig o Gymru oherwydd lleoliad y Cynulliad, sydd yn pryderu llawer o bobl. Yr wyf am chwarae rôl o bwys mewn rhoi i'r canolbarth y llais hwnnw. Cafwyd llawer o siarad am gynwysoldeb ers sefydlu'r Cynulliad hwn. Yr wyf yn croesawu hynny. Gall cynwysoldeb olygu llawer iawn o bethau; yn wir, mae'n siwr y gall olygu beth bynnag yr ydych am iddo ei olygu. Gall olygu cynnwys pawb mewn pob carfan o gymdeithas. Yn y Siambr hon, gall olygu cynnwys pob plaid wleidyddol yn y ffordd yr ydym yn symud yn ein blaenau. Fodd bynnag, y cyd-destun sydd yn bwysig i'r canolbarth yw bod

If this Assembly is to be seen as successful in four years' time, and is to have real relevance for the people of Wales—and all of us, all parties, want it to be a success—we must make the people of mid Wales believe that the Assembly has been relevant to them. The Mid Wales Committee can do that. I am glad that we have had an opportunity to debate, and that I have had the chance to stress what is a major concern in mid Wales and to say how important it is that the Assembly addresses that concern.

**Gareth Jones:** Hoffwn gyflwyno ychydig o sylwadau ar rywbeth newydd a datblygol. Yr wyf yn croesawu'r cyfle hwn i drafod sefydlu Pwyllgorau Rhanbarth.

Yn dilyn pwyntiau'r siaradwr blaenorol, mae disgwyliadau mawr a phryderaf ynglŷn â hynny. Ceir disgwyliadau mawr parthed y Pwyllgorau a'r hyn y gallant ei gyflawni. Mae'n rhaid inni ystyried hynny o ddifrif. Trwy broses ymgynghori, yr wyf yn siŵr y byddwn yn gweithio ar agenda adeiladol a buddiol ar eu cyfer ac y byddant yn cyfrannu yn fawr i Gymru gyfan.

Cyfeiriodd Andrew Davies a sawl siaradwr arall at y ffaith ein bod yno i wrando a dysgu. Dyna fy unig apêl wrth ystyried y strwythur y byddwn yn ei pherffeithio neu ddatblygu dros y tair neu bedair blynedd nesaf. I fentyca jargon o'r byd addysg, mae'r Cynulliad yn newydd a chaiff ei berfformiad ei fonitro.

Pan fyddwn yn mynd i'r rhanbarthau, gobeithiaf y bydd cyfle i'r unigolyn—ac nid oes rhaid iddo fod yn perthyn i gymdeithas neu sefydliad mawr—ddod atom i fynegi'i bryder a'i farn ar sut y mae'r Cynulliad yn gweithio. Cafwyd cyfeiriad pwysig at hynny ac at wrando, deall a monitro. Gobeithiaf y bydd strwythur i'r monitro. Ni fydd yn wrando ac anghofio. Sut bynnag y gweithiwn, ceir monitro arbennig trwy ffurflenni ac ati. Yn bwysicach na hynny, bydd strwythur i'r monitro a dilyniant fel bod y cyhoedd yn sylweddoli ein bod o ddifrif,

cynwysoldeb yn golygu cynnwys pob rhan o Gymru.

Os yw'r Cynulliad hwn i gael ei ystyried yn llwyddiant ymhén pedair blynedd, ac i fod yn wir berthnasol i bobl Cymru—ac mae pawb ohonom, pob plaid, am iddo fod yn llwyddiant—rhaid inni wneud i bobl y canolbarth gredu i'r Cynulliad fod yn berthnasol iddynt hwy. Gall Pwyllgor y Canolbarth wneud hynny. Yr wyf yn falch inni gael cyfle i drafod, ac imi gael y cyfle i bwysleisio'r hyn sydd yn ystyriaeth bwysig yn y Canolbarth ac i ddweud mor bwysig yw hi fod y Cynulliad yn rhoi sylw i hynny.

**Gareth Jones:** I would like to present a few comments on something that is new and developing. I welcome this opportunity to discuss the establishment of Regional Committees.

Following the previous speaker's points, there are great expectations and I am concerned about that. There are great expectations about the Committees and what they can accomplish. We must consider that seriously. Through a process of consultation I am sure that we will work on a constructive and beneficial agenda for them and that they will contribute greatly to Wales as a whole.

Andrew Davies and several other speakers referred to the fact that we are there to listen and to learn. That is my only appeal when considering the structure we will perfect or develop over the next three or four years. To borrow jargon from the educational field, the Assembly is new, and its performance will be monitored.

When we go to the regions, I hope that there will be opportunities for individuals—and they do not have to belong to any large association or organisation—to come to us to express their concerns and their opinions as to how the Assembly is working. There was an important reference to that and to listening, understanding and monitoring. It will not be listening and forgetting. However we work, there will be particular monitoring through forms and so on. More importantly, there will be a structure to the monitoring, and a following-up so that the public realises

ein bod yn gwranddo ac ein bod am symud yr agenda ymlaen.

Apeliaf am onestrwydd wrth inni roi'r strwythur hwn yn ei le, ac inni fonitro a sichrau bod dilyniant i bryderon a chwynion y cyhoedd.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn croesawu dadl mor greadigol a synhwyrol ar bwnc sydd yn holl bwysig i sut y mae'r Cynulliad yn datblygu ei waith.

The establishment of the Regional Committees is crucial to how the Assembly develops its work, and I commend everybody who has contributed to what has been an excellent debate. The establishment of the Regional Committees is an important symbol of our commitment to creating an Assembly that serves the whole of Wales. That is underlined by a number of the contributions.

It may seem obvious, but it would have been very easy to create an Assembly that did not represent the whole of Wales. To have Members from each party in this Chamber saying the same thing is not boring, but exciting and positive. It illustrates one of the most promising developments of this Assembly, which is that we are bringing unity on some important points to the heart of the Assembly's development. Regional Committees were an idea proposed by the Labour Party in Wales to meet the concern that all parts of Wales should have a strong voice in the Assembly. I am proud of that, and excited by the fact that the idea now has a life of its own and has had a creative response, as is illustrated by the contributions today.

The proposal was generated originally because it was feared that north Wales would not feel part of the Assembly. That is why north Wales was the only region that the Government of Wales Act 1998 defined when it made provisions for Regional Committees. It is the only Regional Committee defined in the legislation. The answer to Cynog's point earlier, therefore, is that it is referred to in those terms in the legislation.

that we are serious, that we are listening, and that we want to move the agenda forward.

I appeal for us to be honest as we put this structure in place, and to monitor and ensure that there is a following-up of the public's concerns and complaints.

**The First Secretary:** I welcome such a creative and sensible debate on a matter that is all-important to how the Assembly is developing its work.

Mae sefydlu'r Pwyllgorau Rhanbarth yn hollbwysig i'r ffordd y mae'r Cynulliad yn datblygu ei waith, a chanmolaf bawb sydd wedi cyfrannu at yr hyn fu'n ddadl ragorol. Mae sefydlu'r Pwyllgorau Rhanbarth yn symbol pwysig o'n hymrwymiad i greu Cynulliad sydd yn gwasanaethu Cymru gyfan. Tanlinellir hynny gan nifer o'r cyfraniadau.

Efallai bod hynny'n amlwg, ond byddai wedi bod yn hawdd iawn creu Cynulliad nad oedd yn cynrychioli Cymru gyfan. Nid peth anniddorol yw cael Aelodau o bob plaid yn y Siambr hon yn dweud yr un peth, ond rhywbeth cyffrous a chadarnhaol. Mae'n darlunio un o ddatblygiadau mwyaf addawol y Cynulliad hwn, sef ein bod yn dod ag undod ar rai pwyntiau pwysig at graidd datblygiad y Cynulliad. Syniad a gynigiwyd gan y Blaid Lafur yng Nghymru oedd y Pwyllgorau Rhanbarth, i fodloni'r awydd y dylai pob rhan o Gymru gael llais cryf yn y Cynulliad. Yr wyf yn falch o hynny, ac wedi fy nghyffroi gan y ffaith bod gan y syniad bellach ei fywyd ei hun ac iddo ennyn ymateb creadigol, fel y dangoswyd gan y cyfraniadau heddiw.

Lluniwyd yr awgrym yn wreiddiol oherwydd yr ofn na fyddai gogledd Cymru yn teimlo'n rhan o'r Cynulliad. Dyna pam mai gogledd Cymru oedd yr unig ranbarth a ddiffiniwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 wrth wneud darpariaethau ar gyfer Pwyllgorau Rhanbarth. Dyna'r unig Bwyllgor Rhanbarth a ddiffinnir yn y ddeddfwriaeth. Yr ateb i bwynt Cynog yn gynharach, felly, yw y cyfeirir ato yn y termau hynny yn y ddeddfwriaeth.

3:58 p.m.

Fel gogleddwr fy hun, yr wyf yn deall pwysigrwydd rhoi hyder i'r gogledd—i'r bobl, i bobl fusnes, i gynghorau lleol ac i'r sector gwirfoddol. Mae'n bwysig, er mwyn cadarnhau'r teimlad o fod yn rhan o un genedl dan Gynulliad sydd yn parchu'r gogledd yn ogystal â phob rhanbarth arall.

We must create a sense in which every other region feels enhanced by having an Assembly because its interests are better recognised than before the Assembly was established. That is why the Regional Committees are so crucial. As one born and brought up in north Wales, I recognise the existence of that feeling. I hear it when I am home or in other parts of north Wales and, indeed, in west Wales and mid Wales. I emphasise again the importance that I attach to the Regional Committees in involving people in the Assembly's work at regional level. They are not simply a committee of regional members but act as the avenue and the conduit. It must apply not only in north Wales but in all the regions.

The point has been well made by Mike German and touched on by a number of other people that devolution has to be to Wales. It reflects something I have often repeated that this is about devolution not from Whitehall and Westminster to Cardiff but from Whitehall and Westminster to Wales. The Regional Committees will be an embodiment of that.

Phil Williams and others have touched on this and raised some very important points about the boundaries between public bodies. This is not a new issue but one that has arisen many times in the past. 25 years ago, I was a member of a group involved in a project entitled 'Working Together for Children and their Families'. One of its conclusions was that if you have co-

May I say as a north Walian that I realise the importance of giving confidence to north Wales—to the people, to business people, to local councils and to the voluntary sector. It is important in order to confirm the feeling of being part of one nation under an Assembly which respects the north, as well as every other region of Wales.

Rhaid inni greu ymdeimlad lle mae pob rhanbarth arall yn teimlo ei fod ar ei ennill o gael Cynulliad gan fod ei fuddiannau'n cael mwy o gydnabyddiaeth nag a gaent cyn sefydlu'r Cynulliad. Dyna pam mae'r Pwyllgorau Rhanbarth mor hanfodol. Fel un a anwyd ac a fagwyd yng ngogledd Cymru, yr wyf yn cydnabod bod y teimlad hwnnw'n bod. Fe'i clywaf pan fyddaf gartref neu mewn rhannau eraill o ogledd Cymru ac, yn wir, yng ngorllewin a chanolbarth Cymru. Pwysleisiaf unwaith eto y pwysigrwydd a roddaf fi i'r Pwyllgorau Rhanbarth er mwyn cynnwys pobl yng ngwaith y Cynulliad ar lefel ranbarthol. Nid dim ond pwyllgor o aelodau rhanbarthol mohonynt, ond llwybr a sianel. Rhaid i hynny fod yn wir nid yn unig yng ngogledd Cymru ond ym mhob un o'r rhanbarthau.

Pwysleisiwyd y pwynt gan Mike German ac fe'i crybwyllwyd gan nifer o bobl eraill, sef bod yn rhaid i'r datganoli fod i Gymru. Mae'n adlewyrchu rhywbeth yr wyf fi wedi ei ailadrodd yn aml, mai datganoli sydd gennym nid o Whitehall a San Steffan i Gaerdydd ond o Whitehall a San Steffan i Gymru. Bydd y Pwyllgorau Rhanbarth yn ymgorfforiad o hynny.

Mae Phil Williams ac eraill wedi cyffwrdd ar hyn gan godi rhai pwyntiau pwysig iawn am y ffiniau rhwng cyrff cyhoeddus. Nid yw hwn yn fater newydd ond yn un sydd wedi codi droeon yn y gorffennol. 25 mlynedd yn ôl, yr oeddwn yn aelod o grŵp a fu'n gweithio ar brosiect dan y teitl 'Gweithio gyda'n Gilydd dros Blant a'u Teuluoedd'. Un o'r casgliadau oedd y byddai bywyd yn

terminosity across social services, education, health and other institutions, life would be a lot better. Every decision taken, for the reasons of the narrow service provided, results in what is best for that particular institution and they do not overlap. Sizes of organisations vary and it is extremely difficult to combine areas, as any of us who has tried to do so will know.

I think it is right, as Phil suggests, that we should review the areas, but perhaps not immediately. There is a degree of overlap, particularly on the economic front, not just with the WDA region but with the TECs and economic forums. There is a fair opportunity to capitalise on those boundaries in the short term and look at the whole picture in the longer term. The electoral regions on which they have been based initially and on which our electoral divisions have been established, have already disappeared as European boundaries. In a sense, we are overtaken by events before we begin, so there is every sense in looking afresh at this. However perhaps the sensible thing, for the duration of this Assembly is to work with what we have, such as the established economic boundaries. Perhaps we can look to the long term future part way through the session, when we see whether or not they are working.

David Davies gave far too conservative a welcome to these proposals. That was not meant as a compliment, but I say to him that you cannot guarantee to accept advice in advance. It depends on the quality of the advice and how it fits in with all the other considerations that the Assembly has to make. Some of those considerations will involve other pressures within a region. However, it is sensible to create a relationship in which people know they will be listened to, even if the advice will not always be taken. They then know that their opinion will be considered in the decision-making.

In many ways, the existence of the Regional Committees is what this Assembly is all

llawer gwell pe bai i'r gwasanaethau cymdeithasol, addysg, iechyd a sefydliadau eraill yr un ffiniau. Mae pob penderfyniad a wneir, ar sail y gwasanaeth cul a ddarperir, yn arwain at yr hyn sydd orau i'r sefydliad arbennig dan sylw ac nid ydynt yn goryffwrdd. Mae maint sefydliadau'n amrywio ac mae'n anodd iawn cyfuno ardaloedd, fel y gŵyr pawb ohonom sydd wedi ceisio gwneud hynny.

Credaf y dylem, fel yr awgrymodd Phil, adolygu'r ardaloedd, ond nid ar unwaith efallai. Mae yna rywffaint o orgyffwrdd, yn enwedig yn y maes economaidd, nid yn unig gyda rhanbarth yr Awdurdod Datblygu ond gyda'r CHM a'r fforymau economaidd. Mae yna gyfle teg i fanteisio ar y ffiniau hynny yn y tymor byr ac edrych ar y darlun cyfan yn y tymor hwy. Mae'r rhanbarthau etholiadol y seiliwyd hwy arnynt i ddechrau ac y seiliwyd ein rhanbarthau etholiadol ni arnynt eisoes wedi diflannu fel ffiniau Ewropeaidd. Mewn ffordd, mae pethau wedi symud yn eu blaenau cyn inni ddechrau, felly da o beth fyddai edrych o'r newydd ar hyn. Fodd bynnag, hwyrach mai'r peth synhwyrol i'w wneud, yn ystod oes y Cynulliad hwn, yw gweithio gyda'r hyn sydd gennym, fel y ffiniau economaidd sydd wedi eu sefydlu. Hwyrach y gallwn ystyried y dyfodol hirdymor hanner ffordd drwy'r sesiwn, a medrwn weld bryd hynny a ydynt yn gweithio ai peidio.

Rhoddodd David Davies groeso llawer rhy geidwadol i'r cynigion hyn. Nid ceisio ei longyfarch yr oeddwn, ond dywedaf wrth na allwch addo derbyn cyngor ymlaen llaw. Mae'n dibynnu ar ansawdd y cyngor ac a yw'n cydweddu â'r holl ystyriaethau eraill y mae'n rhaid i'r Cynulliad roi sylw iddynt. Bydd rhai o'r ystyriaethau hyn yn cynnwys pwysau eraill o fewn rhanbarth. Fodd bynnag, doeth o beth yw creu perthynas lle mae pobl yn gwybod y gwrandewir arnynt, hyd yn oed os na fydd y cyngor yn cael ei dderbyn bob amser. Maent yn gwybod wedyn y caiff eu barn ei hystyried wrth lunio penderfyniadau.

Mewn llawer ffordd, mae bodolaeth y Pwyllgorau Rhanbarth wrth graidd y

about. It must be built on partnership and co-operation. The strength of co-operation is that it operates on a mainspring of common purpose rather than control. It takes time and effort to build the series of relationships needed for the success of this Assembly. We have all found that during the first few weeks. It is easier to set down a series of power structures but that is not our purpose. I believe that the Regional Committees will prove a success, as will a number of the other ways in which we are starting to work and others will look in and say, 'Hasn't Wales done it well?'

I recognise the concerns that are expressed about the areas. I think that basing them on the regional economic forums is right. There is a problem referred to by the Business Committee about the size of the South East Wales Regional Committee, (with 26 members it will be more than three times the size of the mid Wales Committee and constitute almost half the membership of the full Assembly). However I think the Business Committee is right to consider that committee forming itself into two sub-committees. That does not mean that it always has to meet in those sub-regions. It can meet as a complete committee looking at the economic interests of the South East area. However, given the number of partners that it will have to deal with in the public and the private sector, as well as the numbers that I have just referred to, I think it is a sensible way of moving forward.

This debate reflects another step in the process of gearing up this Assembly to accept its full responsibilities and it is also a significant expression of the values which govern the Assembly. The Regional Committees must be a force for unity helping to build a Wales that is bigger than the sum of its parts, but which recognises the importance of each of those parts. They must work closely with the partnerships at a local level. We want to encourage this and partnership with local government, with the voluntary sector and with business at a Welsh level. They must feed into the

Cynulliad. Rhaid ei adeiladu ar bartneriaeth a chydweithredu. Grym cydweithredu yw ei fod yn ysgogi diben cyffredin, yn hytrach na rheoli. Mae'n cymryd amser ac ymdrech i lunio'r gyfres o gydbertnasau sydd yn ofynnol er mwyn i'r Cynulliad hwn lwyddo. Mae pob un ohonom wedi gweld hynny yn ystod yr wythnosau cyntaf hyn. Mae'n haws pennu cyfres o strwythurau grym ond nid dyna yw ein diben. Credaf y bydd y Pwyllgorau Rhanbarth yn llwyddiant, fel y bydd nifer o'r ffyrdd eraill yr ydym yn dechrau eu harddel yn ein gwaith a bydd eraill yn edrych i mewn a dweud, 'Onid yw Cymru wedi gwneud yn dda?'

Yr wyf yn cydnabod y pryderon a fynegwyd am yr ardaloedd. Credaf mai priodol yw eu seilio ar y fforymau economaidd rhanbarthol. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes at broblem yn ymwneud â maint Pwyllgor Rhanbarth De Ddwyrain Cymru, (gyda 26 aelod bydd yn fwy na theirgwaith maint Pwyllgor Canolbarth Cymru ac yn cynnwys bron i hanner aelodau'r Cynulliad llawn). Fodd bynnag, credaf fod y Pwyllgor Busnes yn iawn i ystyried y byddai'r pwyllgor hwnnw yn llunio'i hun yn ddau is-bwyllgor. Nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid iddo gwrdd yn yr is-ranbarthau hynny bob amser. Gall gwrdd fel pwyllgor cyflawn sydd yn edrych ar fuddiannau economaidd ardal y De Ddwyrain. Fodd bynnag, o gofio'r nifer o bartneriaid y bydd yn rhaid iddo ddelio â hwy yn y sector cyhoeddus a phreifat, yn ogystal â'r niferoedd yr wyf newydd gyfeirio atynt, teimlaf ei bod yn ffordd gall o symud ymlaen.

Mae'r ddadl hon yn adlewyrchu cam arall yn y broses o baratoi'r Cynulliad hwn i dderbyn ei gyfrifoldebau llawn ac mae hefyd yn fynegiant pwysig o'r gwerthoedd sydd yn llywodraethu'r Cynulliad. Rhaid i'r Pwyllgorau Rhanbarth fod yn rym dros undod, yn helpu i greu Cymru sydd yn fwy na chyfanswm ei rhannau, ond sydd yn cydnabod pwysigrwydd y rhannau hynny. Rhaid iddynt weithio'n agos gyda'r partneriaethau ar lefel leol. Yr ydym am annog hyn a phartneriaeth gyda llywodraeth leol, gyda'r sector gwirfoddol a chyda busnesau ar lefel Gymreig. Rhaid iddynt



Assembly the distinctive perspectives of each region and I agree that they will develop and have a different job in each region of Wales. We need to have a degree of coherence about them. There is a tension between reflecting the different regions and reflecting the best way to play into the whole Assembly, so that they are institutions recognisable not only to their own members but also to members of other Regional Committees. That is part of establishing a new system and forming a new set of relationships.

I agree with Nick Bourne's points that the way in which we have suggested they be established and work should be seen as a blue print, certainly not a red print and not something that will constrain their work. It is not a problem for us to be in a minority either in this Assembly or in the Regional Committees. It is challenging. It is exciting. It means that we have to win arguments and work with others, in order to build confidence that the organisation is moving in the right direction, one which commands general support. That is how the Assembly should be and I believe that this is showing through the methods of working in this Chamber, which are gathering respect outside. There is an emphasis on the disagreements in press and media coverage and that is fine. It should be the case that disagreements are explored and reported. However I think the way in which we are operating, by seeking the best way of working together and building positive outcomes, will win respect for each of the parties here, for us as individuals and for the Assembly as a whole.

The co-operative approach can end up with weakness and compromise, the lowest common denominator, but it can also result in the strongest of all combinations that is decisions which are supported on all sides. That should be our aspiration for the Regional Committee so that the advice coming through is strong and confident, carrying the views of all partners together where possible. This will mean that we handle disagreements as well as work together. As a result we will be stronger as an Assembly, the Regional Committees will be

fwydo i'r Cynulliad safbwyntiau gwahanol pob rhanbarth a chytunaf y byddant yn datblygu a chanddynt dasg wahanol ym mhob rhanbarth o Gymru. Mae angen rhywfaint o gydlynid rhyngddynt. Mae yna densiwn rhwng adlewyrchu'r gwahanol ranbarthau ac adlewyrchu'r ffordd orau i gyfrannu at y Cynulliad cyfan, fel eu bod yn sefydliadau sydd nid yn unig yn adnabyddus i'w haelodau eu hunain ond hefyd i aelodau Pwyllgorau Rhanbarth eraill. Mae hynny'n rhan o sefydlu system newydd a llunio cyfres newydd o gydberthnasau.

Cytunaf gyda phwyntiau Nick Bourne y dylai'r ffordd a awgrymwyd gennym—o ran sefydlu'r pwyllgorau a'u patrwm gweithio—fod yn lasbrint, yn sicr nid yn gochbrint ac nid yn rhywbeth a fydd yn cyfyngu ar eu gwaith. Nid yw'n broblem i ni ein bod mewn lleiafrif yn y Cynulliad hwn nac yn y Pwyllgorau Rhanbarth. Mae'n her. Mae'n gyffrous. Mae'n golygu bod yn rhaid inni ennill dadleuon a gweithio gydag eraill, er mwyn creu hyder bod y sefydliad yn symud i'r cyfeiriad iawn, un sydd yn hawlio cefnogaeth gyffredinol. Dyna sut y dylai'r Cynulliad fod a chredaf fod hyn yn dangos yn y dulliau gweithio yn y Siambr hon, sydd yn ennyn parch o'r tu allan. Mae ymdriniaeth y wasg a'r cyfryngau yn canolbwyntio ar yr anghytuno ac mae hynny'n iawn. Dylid edrych yn fanwl ar unrhyw anghytuno a rhoi adroddiad arno. Fodd bynnag, tybiaf y bydd ein ffordd ni o weithio, drwy geisio'r ffordd orau o weithio gyda'n gilydd a sefydlu canlyniadau positif, yn ennill parch i bob plaid yma, i ni fel unigolion ac i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd.

Gall symud ymlaen drwy gydweithredu arwain at wendid a chyfaddawd, dim ond yr hyn sydd yn gyffredin i bawb ohonom, ond gall hefyd arwain at y cryfaf o bob cyfuniad, sef penderfyniadau a gefnogir o bob tu. Dylem ddyheu am hynny i'r Pwyllgor Rhanbarth fel bod y cyngor sydd yn dod drwodd yn gryf a hyderus, yn cario barn y partneriaid i gyd gyda'i gilydd lle bo hynny'n bosibl. Bydd yn golygu ein bod yn delio'n dda ag unrhyw anghytuno yn ogystal â gweithio gyda'n gilydd. O ganlyniad, byddwn yn gryfach fel Cynulliad, bydd y

stronger and Wales will be stronger.

I agree with what Peter Black said about question and answer sessions. One of the first things I did as Secretary of State was to go to every local authority area in Wales and hold a question and answer session. Some were better attended than others, but they all had plenty of challenging questions which made me realise people's concerns and interests and the issues that this Assembly has to address. I think that if the Regional Committees, the Assembly Secretaries and all of us are involved in that sort of dialogue, it will be as productive as question sessions here, which are more difficult to respond to than those in the House of Commons. The 'knockabout' is much easier than giving real answers to real questions. This is far more worthwhile and I believe that it is the way forward.

4:08 p.m.

The establishment of the Regional Committees demonstrates that the Assembly is not simply about building a structure in Cardiff but about involving every part of Wales. It demonstrates that this Assembly is about partnership at a local, regional and national level in Wales, feeding ideas from the bottom up, not simply taking decisions and sending those ideas down the chains of command. It is about drawing people together in partnership across Wales.

It also shows that the Assembly is about better Government, recognising that through new democratic structures, we can meet the diverse needs and concerns of communities across Wales.

I commend this resolution to the Assembly and congratulate those who have taken part in this debate. I know that every member of the Chamber will share with me the desire to make these Regional Committees a success and we each have a part to play in achieving that success. The excellent debate this afternoon has provided us with a good springboard to go out and make them work.

Pwyllgorau Rhanbarth yn gryfach a bydd Cymru'n gryfach.

Cytunaf gyda'r hyn a ddywedodd Peter Black am sesiynau holi ac ateb. Un o'r pethau cyntaf a wneuthum fel Ysgrifennydd Gwladol oedd mynd i ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru a chynnal sesiwn holi ac ateb. Daeth mwy i rai ohonynt nag eraill, ond codwyd digon o gwestiynau anodd ym mhob un i wneud imi sylweddol beth yw pryderon a diddordebau pobl a'r materion y mae'n rhaid i'r Cynulliad roi sylw iddynt. Credaf, os bydd y Pwyllgorau Rhanbarth, Ysgrifenyddion y Cynulliad a phawb ohonom yn cyfrannu at ddeialog o'r math yna, y bydd mor gynhyrchiol â sesiynau holi yma, sydd yn fwy anodd i ymateb iddynt na'r rheiny yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae sesiynau stwrlyd yn llawer haws na rhoi atebion iawn i gwestiynau iawn. Mae llawer mwy o werth i hynny, a chredaf mai dyna'r ffordd ymlaen.

Mae sefydlu'r Pwyllgorau Rhanbarth yn dangos mai'r diben wrth wraidd y Cynulliad yw nid yn unig codi adeilad yng Nghaerdydd ond cynnwys pob rhan o Gymru. Mae'n dangos bod y Cynulliad hwn yn golygu partneriaeth ar lefel ranbarthol a lefel genedlaethol yng Nghymru, yn bwydo syniadau o'r gwaelod i fyny, nid dim ond yn llunio penderfyniadau ac anfon y syniadau hynny i lawer drwy'r rhengoedd. Mae'n golygu dod â phobl ynghyd mewn partneriaeth ledled Cymru.

Mae'n dangos hefyd bod y Cynulliad yn golygu gwell Llywodraeth, gan gydnabod y gallwn, drwy well strwythurau democrataidd, ddiwallu anghenion a thawelu pryderon amrywiol cymunedau ar hyd a lled Cymru.

Yr wyf yn argymhell y penderfyniad hwn i'r Cynulliad ac yn llongyfarch y rhai sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon. Gwn y bydd pob aelod o'r Siambr yn rhannu gyda mi yr awydd i wneud i'r Pwyllgorau Rhanbarth hyn lwyddo ac mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae er mwyn cyflawni'r llwyddiant hwnnw. Mae'r ddadl ragorol brynhawn heddiw wedi rhoi hwb da inni i fynd allan a

gwneud iddynt weithio.

**The Presiding Officer:** The Assembly has debated the function and organisation of Regional Committees together with the supporting papers. We will now vote on the motion.

**Y Llywydd:** Mae'r Cynulliad wedi trafod swyddogaeth a threfniadaeth y Pwyllgorau Rhanbarth ynghyd â'r papurau cefnogi. Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig.

*A vote was held by show of hands.*

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.*

*Motion adopted.*

*Derbyniwyd y cynnig.*

Dyna ddiwedd y sesiwn am heddiw. Diolch yn fawr ichi.

That ends today's session. Thank you very much.

*Daeth y sesiwn i ben am 4.11 p.m.  
The session ended at 4.11 p.m.*